

ECO'R WYDDFA

Rhif 50

GORFFENNAF - AWST 1980

Pris 12c

PYSGOTWR O FRI DEWI I GYNRYCHIOLI CYMRU



Dyma lun o Dewi Wyn Jones, mab Mr a Mrs Gwynfor Jones, Cenarth, Bethel sy'n bysgotwr go arbennig. Enillodd darian hardd a gwobr o bum punt mewn cystadleuaeth bysgota a gynhaliwyd yn ddiweddar ar lyn Brenig. Trefnwyd yr ornest gan *Gymdeithas Pysgota Brithyll ac Eog Cymru* ar gyfer rhai dan anfantais corfforol. Cyflwynwyd y darian i'r gymdeithas gan Ganolfan yr Orsedd, Llandudno. Roedd ymgeiswyr o bob cwr o Gymru yno. Pysgota mewn cwch oeddynt a chafwyd hwyl iawn gyda phob un yn dod â physgodyn i'w rwyd. Llwyddodd Dewi i ddal tri brithyll yr enfys - cyfanswm o bedwar pwys a hanner.

O ganlyniad i'w lwyddiant mae Dewi wedi ei ddewis i gynrychioli Cymru yn yr ornest ryngwladol a gynhelir ar lyn Brenig y tymor nesa.

Mae Dewi, sy'n 12 oed yn dioddef o Spina Bifida ac mae'n ddiffwrwyth o'i ganol i lawr. Ond gall symud o gwmpas mewn cadair olwyn.

Tad Dewi, Mr Gwynfor Jones, sydd ei hun yn bysgotwr brwd, a ddechreuodd y diddordeb mewn pysgota yn ei fab tua phedair blynedd yn ôl. Erbyn hyn, dyma

brif bleser Dewi. Enillodd y wobwr gyntaf y llynedd mewn gornest ar lyn Alaw, ynys Môn. Mae'n aelod o S.G.L.L. a chlwb pysgota Ferodo ble mae Mr Jones yn gweithio.

Mae wrth ei fodd hefyd gyda drafftiau; ef yw'r ail-orau yn ei ysgol - sef Ysgol y Gogarth, Llandudno am chwarae'r gêm.

Ein dymuniadau gorau iddo. Edrychwn ymlaen at y cyfle o gael cofnodi rhagor o hanes llwyddiannau Dewi yng ngholofau'r *Eco*.

PEN-BLWYDD

Fel y gwelwch o'r prif bennawd mae'r *Eco*'n hanner cant oed y mis yma. Dyma ddau englyn gan Tony Elliott i gofio'r achlysur.

Yn wyneb her estroniaith;

- yn wyneb

Edwino ein mamiaith;

Gwelwn yn hwn yr heniaith

Yn llawn hwyl mewn gŵyl a gwaith.

Daw hwn â chwa'r dadeni

- yn fisol

I feysydd y cyni;

Caer uniaith; cawr â'i ynni

Yn rhoi nerth i'n henfro ni.

Tony Elliott

REFF O FRI! W.J. I GYNRYCHIOLI CYMRU



Llongyfarchiadau i W.J. Williams, 38 Rhydfadog, Deiniolen ar gael ei ddewis i gynrychioli ei wlad fel dyfarnwr gemau snwcer rhyngwladol, sydd i'w cynnal ym Mhrestatyn fis Hydref nesaf. Mae W.J. yn aelod ffyddlon o'r clwb a dymunwn y gorau iddo yn ystod y gystadleuaeth bwysig yno.

GWAUN GYNFI'N LLWYDDO ETO



Bu Parti Cân Actol yr Ysgol yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mro Colwyn. 'Roedd naw o bartion yn y Gystadleuaeth, a daeth Parti Ysgol Gwaun Gynfi yn gyntaf, Parti Ysgol Elfod, Abergel yn ail, a Pharti Ysgol Llanfair Caereinion yn drydydd. Llongyfarchwn y Parti ar eu camp yn ennill y Cwpan am yr ail dro. 'Roedd nifer mawr o bobl wedi dod at yr Ysgol i ddisgwyl y Parti adre'n ôl, gydag aelodau o Seindorf Deiniolen yn estyn eu croeso hwythau.

Hyfforddwyd y parti gan un o athrawon yr Ysgol, Mrs K.M. Williams, Caernarfon a'r cyfeilydd oedd Miss Annette Bryn Roberts, Dinorwig.

Dyma farn y Beirniaid:

Cynhyrchiad celfydd o'r dechrau i'r diwedd. Y cyfeiliant yn arbennig. Perfformiad caboledig. Hoffem yn fawr y modd y defnyddid y llwyfan; symudiadau proffesiynol. Cynllun y

stori'n ddiddorol a'r canu'r ardderchog. Y dillad yn lliwgar ac yn drwsiadus. Y dywysoges a'r wrach yn dda iawn a phob cymeriad arall ran hynny. Gafaelgar iawn. Ar y llwyfan, celfyddyd, y cynhyrchu yn rhagori eto. Cân Actol gyflawn.

RALI'R SIANEL GYMRAEG

yn yr hen Goleg
Aberystwyth am 2 o'r
gloch.

Sadwrn, MEHEFIN 28

Ceir Arfoni ymgynnull
ym maesparcio Peblig,
Caernarfon am 10.30 am.

Cyfarfod â cheir Clwyd
yng ngholeg Meirionnydd
Dolgellau am 12.15.

Dewch yn llw. Dewch â'ch
baneri. Manylion pellach,
Waunfawr 421.

ECO'R WYDDFA

RHIF 50
GORFF-AWST 1980

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION
CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU:

Dafydd Whiteside | Thomas, Bron | y
Nant, Pontrhythallt, Llanrug,
(Caernarfon 3515).

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliott, Crud y Wawr, Bryneglwys,
Penisarwaun.

TREFNYDD NEWYDDION

YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (Llanberis 515).

DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, Blodwel, Dôl Elidir, Llanberis
(Llanberis 220).

FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,
Morwel, Ceunant (Waunfawr 321).
Gwynnaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669).

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Ian
Pierce, Swyn-yr-Awel, Llanrug (C'fon
3776).

TRYSORYDD: Gwyn Oliver Jones, 58
Pentre Helen, Deiniolen.

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon
3227).

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Sycharth
(Portdinorwic 726)

BETWS GARMON: Mrs Brenda
Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gwledfa,
Brynrefail (Padarn 223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Dafydd Price, Tŷ Capel
(Llanberis 550)

DEINIOLLEN: Meirion Jones,
Minafon, Clwt-y-bont (Llanberis 452)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 671)

LLANBERIS: Mrs Siân Thomas,
Foelas, Stryd Newton (Llanberis 220)

NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel

LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce, Swyn
yr Awel (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Leslie Larsen,
Llygad yr Haul (Llanberis 533)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Waunfawr 355)

TREFNYDD PLYGU: Gwynnaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug.

TREFNYDD BUSNES: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug.

Gwyliau hapus i bawb.

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf
o'r wasg ar
28 AWST
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
erbyn 20 AWST
os gwelwch yn dda.

Llythyrau

7 Oxley Links Road,
Oxley,
Wolverhampton,
WV10 6TJ.

Annwyl Olygydd,

Dyma fi yn anfon enwau y
genethod sydd ar y tudalen canol
o **Eco'r Wyddfa**. Ilun o gân actol
Suo Gân. O'r chwith (Thomas Ll.
Owen), Olive Green, Katherine
Owen, Nora Davies, Betty Jones
(y fi, braidd yn gymylog wedi
symud mae'n bur debyg) **nid wyf**
yn cofio enw'r bumed, Jennie V.
Jones, Philys Green, Myfanwy
Williams, Nellie Parry? (ddim yn
siŵr), **Buddug Jones, Audrey**
Pepper, (Mr Owen Hughes?)

Rwyf fi yn byw yn Lloegr ers
1938. Mae gennyf lun o gân actol
y morwyr, a dosbarth 'violins'
hefyd, ond dan ofal Mr Thomas,
Llewelyn Owen. Roeddym yn
cael gwersi yn ysgol bach
Cwm-y-glo am chwe cheiniog. Fe
wn fod Jennie Vaughan (Jones
gynt) yn byw yng Nghaernarfon.
Gelwais yn ei chartref pan oedd
yr Eisteddfod Genedlaethol yng
Nghaernarfon. Cefais i a'r gŵr
groeso mawr ganddi. Hefyd mi
wn fod Myfanwy (Williams gynt)
yn byw ym Mhrestatyn, byddaf
yn cael sgwrs â hithau hefyd pan
fyddaf yn ymweld â fy nhad sydd
wedi mynd i Brestatyn i fyw ar ôl
ymddeol o Bebington ar y Wirral.
Wn i ddim am hynt a helynt yr un
o'r genethod eraill yn y llun, er
imi gredu fod Buddug (Jones
gynt) oedd yn ferch i'r ysgolfeistr
wedi mynd i America i fyw ar ôl
priodi.

Gwelaf o dan newyddion
Cwm-y-glo y newydd prudd am
farwolaeth Gwilym Evans. Cofiaf
amdano fel cymeriad annwyl, a'i
hiwmor iach. Fe fûm yn canu
gydag ef mewn pedwarawd yn yr
eglwys ar Nos Galan — dyma'r
pedwar — Mrs Captain Higgins
(oedd fy ysgolfeistr yn ysgol y
babanod), Mr Llewelyn Hughes,
Gwilym Evans a minnau. Rwyf yn
anfon fy nghydymdeimlad
dwysaf ag Aled, oedd yn yr ysgol
yr un amser â mi. Byddaf yn
edrych ymlaen at **Eco'r Wyddfa**
bob mis, mae'n dod ag atgofion
hapus, crio a chwerthin bob yn
ail, wrth ddarllen hanes hen
gyfeillion. Diolch yn fawr am
gylchgrawn mor ddiddorol.

Yr eiddoch,
yn gywir iawn,
(Mrs) Catherine E. Roberts,
(Betty Jones gynt)

YN EISIAU

Erbyn Medi, 1980 —
Athrawes i Ysgol
Feithrin Llanrug.
Cysyllter â'r
ysgrifenyddes, Rhian
Jones, 3 Minffordd,
Llanrug.

EISIAU BENTHYG BLODWEN

Annwyl Olygydd,

Mae Merthyr Tudful yn
dathlu mil a hanner o flynyddoedd
ei bodolaeth eleni, ac mae Ysgol
Rhydfelen am gyfrannu at yr
achlysur drwy gynnal perfformiad
llawn o'r opera **Blodwen** gan
Joseph Parry — un o feibion y dref.

Nid yw'r un perfformiad
cerddorol yn bosibl heb gopiau.
Apêl yw hwn felly at unrhyw un a
fyddai'n fodlon benthyg copi o
Blodwen (Hen Nodiant neu
Sol-ffa) i Ysgol Rhydfelen i
gysylltu â mi. Perchir pob
benthygiad.

Diolch yn fawr am eich
cydweithrediad,

Dulais Rhys

Yr Adran Gerdd
Ysgol Gyfun Rhydfelen
Pontypridd
Morgannwg Ganol

Y LLANW ESTRON

15 Maes Padarn
Llanberis

Annwyl Olygydd,

Fel cyn-ddisgybl Ysgol Brynrefail
cryn siom oedd imi ddarllen eu
cylchgarwn 'Yr Efail'.

Hoffwn wybod a ydyw'n dal yn
wir mai Ysgol Uwchradd yn y Fro
Gymraeg, gyda disgyblion
Cymraeg yn wir yn y mwyafrif,
yw hon. Mae'n ymddangos i mi,
yn anffodus, fod y 'llanw estron'
wedi llwyddo o'r diwedd i foddi
ein bro.

Mae'n bechod i mi orfod
cyfaddef fod cylchgronau llawer
o ysgolion y de yn llawer gwell,
mor bell ag y mae cynnwys yr
iaith Gymraeg yn y cwestiwn.

Felly, deffrowch, da chi, cyn
iddi fynd yn rhy hwyr.

G.W. Roberts

GENOD PONTRHYTHALLT

Y Fflat,
Marino,
Ffordd y Gogledd,
Caernarfon.

Annwyl Olygydd,

Byddaf yn cael llawer o
fwynhad wrth ddarllen eich papur,
ac yn cael pleser yn aml o weld hen
luniau a hanesion sy'n dod ag
atgofion hapus i mi o'r amser pan
oeddwn yn byw ym
Mhontrhythallt. Byddaf yn anfon
Eco'r Wyddfa i'm chwaer yn
Surrey, a bydd hithau yn teimlo'n
llawer agosach i'w hen gartref ar ôl
ei ddarllen.

Wrth weld llun Owen Hughes
gyda'r parti Cân Actol o Gapel
Bryngwyn yn y rhifyn diwethaf,
teimlais y byddai'r penillion hyn o
ddiddordeb i rai o'r darllenwyr.
Mae'r penillion yn fy meddiant yn
llawysgrif Owen M. Hughes, ac
wedi eu hysgrifennu yn 1929.

GENETHOD PONTRHYTHALLT

Ceisias rodri rhestr enwau
Plant Pontrhythallt yn ddi-stŵr;
Katie Davies, Lizzi Bacton,
Betty Williams, Glan y dŵr,
Miss Diana Whiteside hefyd
Amy, Eirlys, Katie Wynne,
Dilys Thomas o Goleufryn,
Buddug Llwydwen, Graianfryn.

Enid Whiteside, Hedsor Villa,
Gwyneth Thomas a Mair Lloyd,
Mair Christiana, Annie Ceinwen,
Evelyn, Mary ysgafn droed;
Megan Roberts, Meinir Thomas,
Mary Grace, Llys Iolen fry;
Annie Roberts, Megan, Eirwen,
Mair Green siŵr, a Mair Pandy.

Os gadewais rywun allan
Heb ei enwi yma i lawr,
'Rwy'n hyderu y gwnewch faddau
I mi am y camwedd mawr;
Gan fy mod yn gyfaill dieithr
Yn eich ardal, ple 'rych byw,
Ond hyderaf cewch flynyddoedd
O dan heulwen bur ein Duw.

Rydych heddiw megis blodau
Yn datblygu gyda'r wawr,
Hyd y pentref, hyd y dolydd
Dyma waith y Garddwr mawr;
Boed i Dduw y Garddwr Hwnnw
Eich bendithio bob yn un
Gyda'r Fendith angenrheidiol
Sydd i'w gael at gadw Dyn.

O.M. Hughes

Yr eiddoch yn gywir,

Mary Owen
(Pritchard gynt)

E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn 202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

CYSTADLEUAETH MIS MEHEFIN

'Rydych yn cofio'r cartŵn o'r dyn yn dangos ei ben ôl ar ochr lein bach yr Wyddfa yn ein rhifyn diwethaf. Eich gwaith chi oedd dyfalu beth fyddai sylw teithwyr y trê. Hynny ydi, rhyw fath o sylw dan-din, os liciwch chi!

Rhoddodd nifer ohonoch eiriau reit ddiddorol, a dweud y lleiaf, yng ngenau'r teithwyr. Dim rhyfedd yn wir fod rhai ohonoch heb ddatgelu eich enwau priodol! Ond diolch i chi am ymuno yn yr hwyl.

Y cynnig gorau i mi ei glywed oedd "Pwff-pwff", ond nid oedd hyn, chwedl pob beirniad eisteddfodol, yn ateb gofynion y gystadleuaeth. Y teithwyr, ac nid y trê, oedd i fod i lefaru.

Dyma rai o'r cynigion:
"Neidiwch allan hogia, mae'r mynydd yn hollti!"

Ac eto, ar yr un thema, fel petae:
"Hwnna ydi'r ceunant mawr oeddech chi'n sôn amdano".

Mae'n amlwg fod yr ymgeisydd nesa yn ddarllenwr cyson o'r Eco:

"Tybed ai hwn yw'r gŵr cachgiaidd a ysgrifennodd i golofn chwaraeon yr Eco'n ddiweddar?"

Ond yr un a ddyfernir yn orau y tro hwn yw'r ddeialog bach yma:
"Un teithiwr yn dweud "Cheek te".

"Ia wir," meddai'r llall, "Dwy."

Gobeithio y daw'r ymgeisydd llwyddiannus i gysylltiad â ni'n fuan.

Diolch yn fawr i Gareth Roberts o Lanrug, sy'n ddisgybl yn y chweched dosbarth yn ysgol Brynrefail am lunio'r cartŵn. Cewch gyfle arall i edmygu dawn Gareth yn y maes yma ar dudalen y rhifyn hwn.

DYN LLEOL YN LLYWYDD UNDEB

Llywydd Undeb yr Annibynwyr am 1980 fydd y Parchedig Edwin Pryce Jones, M.A., Llwynycelyn, Aberaeron. Brawd yw i'r diweddar Barchedig Irfon Gwyn Jones, B.A., Boncath ac i Mrs Cassie Owen, Wyddfyd Llanberis a Mrs Rowena Lloyd, Derlwyn, Cyffordd Llandudno.

Rhoddodd ei araith agoriadol nos Fercher, 18 Mehefin yng Nghyfarfod Blynnyddol Undeb yr Annibynwyr ym Methesda, Y Tymbl. 'Roedd y capel yn orlawn a chododd y gynulleidfa ar y diwedd i'w gymeradwyo. Cafodd ei addysg yn Ysgol Dolbadarn, Ysgol Brynrefail, Coleg Bala-Bangor, Prifysgolion Bangor a Rhydychen. Cyhoeddwyd ei araith, 'Her yr Athrawiaethau', gan Wasg John Penry, 11 Heol Sant Helen, Abertawe.

PALMANT A MAES PARCIO YN LLANRUG

Dywedodd Syrfeur Sir Gwynedd, Mr H.E. Davies mewn llythyr at y Cynghorydd Pat Larsen ei fod yn gobeithio cynnwys y gwaith o adeiladu palmant o sgwâr Llanrug hyd at stad Nant-y-glyn yn y rhaglen o welliannau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Dibynna hyn, wrth gwrs, ar ba mor lwyddiannus y bydd y cyd-drafodaethau tir.

Dywedwyd hefyd bod y Sir yn adolygu'r cynlluniau ar gyfer darparu palmant ar hyd y gweddill o Ffordd yr Orsaf.

Deallwn y bydd y Syrfeur mewn cysylltiad â Chyngor Bwrdeistref Arfon "yn edrych i mewn i'r posibilrwydd o gael maes parcio yn y pentref".

CYFRANIAD I ECO'R WYDDFA

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion hael tuag at gostau'r Eco:

£1.00 - Miss Priscie Roberts, Glanrhydfadog, Deiniolen

£1.00 - Mrs Katie Jones, Sŵn yr Afon, Deiniolen

£1.00 - Mrs Nesta Jones, 2 Llys-y-gwynt, Penisarwaun.

Dylan Owen, Bethel - £1

£1.00 Di-enw, Prestatyn

£1. Teulu'r ddiweddar May Davies, Stryd Siarlot.

£2, Mr a Mrs Roberts, 48 Rhydfadog.

£2: Mr a Mrs C.E. Lovell, Nant Peris.

£2.00 Mrs M.J. Roberts, Islwyn, Dinorwig

DINORWIG

DIOLCHIADAU - Dymuna Mrs M.J. Roberts, Islwyn, a Mr a Mrs John Roberts, 3 Maes Eilian, ddiolch o galon i berthnasau, cymdogion a ffrindiau am y cydymdeimlad a'r caredigrwydd a'r cardiau a'r llythyrau a dderbyniwyd ganddynt yn ystod eu profedigaeth yn ddiweddar.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL - Dydd Sadwrn, Mehefin 7 aeth aelodau'r Gymdeithas r eu gwibdaith flynyddol i Southport a Lerpwl. Mwynhawyd y daith yn fawr. Diolchir i'r swyddogion am drefnu'r trip. Trefnwyd y daith gan Mr Gwilym L. Williams, Deiniolen Motors a Mrs Megan P. Morris, Ysgrifennydd, a Mrs Dilys Williams, Trysorydd.

CYMDEITHAS Y BEIBLAU - Cangen Deiniolen a'r Cylch, Dan nawdd yr uchod, nos Wener, Mehefin 13, cymerodd aelodau a phlant eglwys St Mair Sardis, a Dinorwig ran mewn taith gerdded ac encil ddistaw yn Eglwys St Mair. Noddwyd y rhai a gymerodd ran, ac âi'r elw ariannol tuag at y gost o argraffu Beibl Cymraeg ym 1988.

MARW - Mehefin 17 yn 60 mlwydd oed bu farw Mr Abram P. Morris, Tanybwllch. Cymeriad hoffus. Bydd chwithdod ar ei ôl yn yr ardal. Cydymdeimlir â Mr a Mrs Andrew Griffith, Tanybwllch, Mrs Megan P. Morris, Minffordd, Mr a Mrs J.E. Morris, Clwtybont a Mr Goronwy Morris, Clwtybont, Mrs Gwladys Evans, Allt-y-foel, chwiorydd a brodyr. Hefyd y cysylltiadau teuluol yn eu profedigaeth.

C A N O L F A N IEUENCTID GYMDEITHASOL - Ar Fai 15 eleni cynhaliwyd cyfarfod blynnyddol o'r uchod, gyda Mr Richard Parry, Swyddog Ieuencid Gwynedd yn bresennol.

Cafwyd mantolen lewyrchus iawn yn dangos fod £368.10 mewn llaw yn y banc ar Ebrill 30. Mae copi o'r fantolen i'w gweld yn y capeli neu yn yr eglwys, Drwy'r fantolen fe welwch i ni fel pwyllgor wario y llynedd £59.75. Tuag at baent i beintio yr ysgol aeth £59.65 Carwn, ar ran y pwyllgor, ddiolch o galon i Mr G. Pritchard, Pen Dyffryn, yn y lle cyntaf am iddo gael y paent mor rhad inni, ac yn ail am ei waith arbennig. Fe fu o gymorth mawr iawn i ni fel pwyllgor a mwy na hyn mae Mr Pritchard wedi addo cymorth inni eto fel y bydd angen. Diolch yn fawr Mr Pritchard.

Ar y cyfan er mai ychydig a ddaeth i'r Cyfarfod Blynnyddol, cafwyd cyfarfod adeiladol a llwyddiannus. Diolch i bawb oedd yn bresennol. Estynnaf fy niolech i'r ddau swyddog arall a fu yn cydweithio efo fi ar hyd y flwyddyn sef Mrs H. Mary Roberts, ysgrifennydd, a Mr David Ll. Hughes, llywydd, a hefyd i aelodau'r pwyllgor.

Yn ystod y Cyfarfod derbyniwyd ymddiswyddiad Mr R. Williams, Tan y Fron. Dyma golled fawr iawn inni fel pwyllgor, ond ar ran y pwyllgor a gaf fi ddiolch i Mr Williams am y gwaith a wnaeth yn y Pwyllgor. 'Roedd ar y pwyllgor ers dechrau'r Ganolfan. Diolch am yr hyn a wnaethoch Mr Williams.

Carwn hefyd ddiolch i Mr Owen Richard Williams, 2 Bro Elidir a Mrs Katie Lloyd Hughes am archwilio'r llyfrau a'u cael yn gywir.

Yn lle Mr R. Williams fe etholwyd Mrs Rita Woods Fron Heulog yn aelod o'r pwyllgor. Croeso cynnes iawn i chwi i'n plith.

Hyd yma nid oes mantolen snwcer wedi dod i law felly ni allaf roi'r manylion i chwi. Pan dderbyniwn hi fe fydd copi i'w weld yn yr addoldai.

Ar ran y pwyllgor a'r swyddogion a gaf fi ddiolch i bawb a wnaeth rywbeth bach neu fawr tuag at lwyddiant y ganolfan yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.

Marian Evans (trysorydd)

SIOP GARDIAU YN YR YSGOL

Dewch ar frys i siop gardiau Cymraeg, Ysgol Gynradd Llanrug. Mae'r siop, sydd newydd agor, yn gwerthu pob math o gardiau cyfarchion Cymraeg - addas at bob achlysur. Bydd y siop ar agor i'r cyhoedd bob pnawn Llun a lau o 3.00 hyd 3.30 tan ddiwedd y tymor.


STORFA

Mace
O.R. & M.
PARRY
Sgwâr
Llanrug

Caernarfon 2790

Dewis hael
o fwydydd, llyisiau
a diodydd

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques
Ivy Cottage
BETHEL

Ffôn:

Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da

Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

GWASANAETH NEWYDD YNG NGHAERNARFON



Bathodynau
Crwn ar
gyfer . . .

Clwb Rygbi/Tim Peldroed/Cymdeithas
Grŵp Pop/Clwb Gwerin/Papur Bro
Siop/Busnes/Swyddfa, etc, etc

Am fwy o fanylion a samplau cysyllter ag:

EURIG WYN

SIOP Y PENTAN

YR HEN FARCHNAD, STRYD Y PALAS
CAERNARFON (Ffôn: 5262)

DEINIOLEN

CLWB ELIDIR - Dymunwn fel aelodau ddiolch o galon i'r ardal am bob rhodd, gweithred a phob cefnogaeth a gawsom i gynnal ein Noson Goffi ar Fehefin 6. Unwaith eto diolch am y fath haelioni.

YR YSGOL FEITHRIN - Fel rhan o Wyl Feithrin 1980, cynhaliwyd Bore Agored yn yr Ysgol Feithrin leol. Siomedig oedd y gefnogaeth ond dymuna'r pwyllgor ddiolch yn galonnog iawn i bawb a gyfrannodd mor hael. Ar y nos Wener o'r un wythnos aeth y mamau all n ar daith ddirgel a chawsant noson ddifyr iawn. Arhoswyd yng Nghricieth i gael hufen iâ ac yna gorffen y noson gyda chyw iâr a sglodion yng Ngwesty'r Glaslyn, Prenteg.

WYTHNOS GARNIFAL DEINIOLEN GORFFENNAF 6 - 12. Nos Sul - Cyngerdd Cysegredig gan dalentau'r pentref yng Nghapel Ebenezer am 8 o'r gloch. Arweinydd: y Parch Trefor Lewis.

Nos Lun - Gemau terfynol 5 bob ochr yn y cae chwarae am 6 o'r gloch. Rowndiau cyntaf nos lau, Gorffennaf 3 am 6.00.

Nos Fawrth - Disco Agored yn iard yr Ysgol Feithrin am 6.30. Yn Neuadd yr Ysgol os yn glawio.

Nos Fercher - Cyngerdd a Choronîr Frenhines yng Nghapel Cefn-y-waun am 7 o'r gloch. Cymerir rhan gan Blant Ysgol Gwaun Gynfi ac Edward. Arweinydd: Mr W.J. Eames. Llywydd: Mrs E. Thomas.

Nos Iau - Mabolgampau yn y cae chwaraeon 6.30.

Nos Wener - Noson o Hud yng nghwmni Mr Terry Jones o Gaergybi yn Neuadd yr Ysgol am 6.00 i blant o dan 12 oed.

Dydd Sadwrn - Y Carnifal i gychwyn o Glanffrwd am 1.30. I'w agor yn y cae chwarae am 2.00 gan Arfon Haines Davies o Deledu Harlech. Seindorf Arian Deiniolen, Dawnsyr Llaingoch, y Frenhines a Breninesau Gwadd.

Bydd bws yn ddi-dâl yn cychwyn o Glwt-y-bont a Dinorwig am 6.30 i'r cyngerdd nos Fercher.

DIOLCH - Dymuna Mrs Hughes, Erw Fair ddiolch i'w pherthnasau a chyfeillion am y llu cardiau a rhoddion a dderbyniodd tra yn ysbyty Bryn Seiont a diolch yn arbennig i'r gweinyddesau yno. Diolch yn fawr iawn i bawb.

DIOLCH - Dymuna R. Wynne Roberts, 48 Rhyd Fadog, ddiolch yn gywir iawn i'r teulu, ffrindiau, a chymdogion, am eu caredigrwydd, yn rhoddion a chardiau a hefyd am yr ymweld diflino a gafodd, yn ystod ei harhosiad yn ysbytai Eryri a'r

Bwthyn, Caernarfon; hefyd diolch yn fawr iawn i'r meddygon i gyd, a'r staff am eu gofal ohono.

Diolch yn arbennig iawn i'w weinidog, y Parch Trefor Lewis am ei garedigrwydd diflino. Diolch yn fawr iawn i bawb.

SWYDD NEWYDD - Llongyfarchiadau i Mr Gwyn Parry, Bro Dawel, ar gael ei benodi yn Bennaeth Adran Addysg Grefyddol yn Ysgol Aberconwy, Conwy. Bydd yn dechrau yn ei swydd newydd ym mis Medi.

TABERNACL - Cynhaliwyd Cymanfa'r Plant yn Seilo Tregarth. Cymerwyd rhan yn y Pasiant, ar y thema 'Ceisiwch yn gyntaf Deyrnas Dduw' gan y plant canlynol, Sarah a Medwyn, Malcom a Peter, Sharon a Mandy, Julie, Amelia, Nia ac Ian. Dylan a Gwenda. Cafodd Nia Wyn Griffith, Sarah Davies a Kevin Edwards fedal y Genhadaeth Dramor am hel swm sylweddol o arian. Llywydd cyfarfod yr hwyr oedd Mrs J. Eirlys Williams, Tabernacl. Nos Fercher, Mehefin 4 cynhaliwyd ein cyfarfod pregethu blynyddol. Cafwyd pregeth fendithiol iawn gan ein gweinidog, y Parch Albert W. Jones.

Y SEINDORF - Cynhaliwyd Pwyllgor Blynyddol y Seindorf ar Fehefin 9. Yn y gadair yr oedd Mr Gwyn Parry. Agorwyd y pwyllgor gan gofio colli dau aelod ffyddlon o'r pwyllgor, sef Mr O.H. Jones, llywydd a Mr R. Woodcocks, drwy farwolaeth yn ystod y misoedd diwethaf.

Penodwyd tri aelod newydd ar y pwyllgor, sef Mr B. Roberts, Pentre Helen, Mr J. Maldwyn Jones, Marian Terrace a Mr E. Jones, Y Becws. Y swyddogion am y flwyddyn: ysgrifennydd, Mr Meirion Jones, Minafon, Clwt-y-bont, trysorydd, Mr H.G. Jones; llywydd, Mr Gwyn Parry; Is-lywydd, Mr Gwyn O. Jones; Llyfrgellydd, Mr Caradog Thomas; gofalwr, Mr Thomas Williams.

PEN-BLWYDD EGLWYS CRIST LLANDDINORWIG yn 123 oed - Cynhaliwyd yr ŵyl flynyddol ar y 3ydd Sul ym mis Mehefin i ddathlu pen-blwydd yr elgwys a sefydlwyd ym 1857.

Cafwyd gwasanaeth dwyieithog yn y bore gyda'r Canon E.G. Wright yn gweinyddu'r Cymun Bendigaid. Y pregethwr gwadd yng nghyfarfod yr hwyr oedd y Parch H.E. Griffith, Rheithor Llanllyfni gyda Mr Gwilym Parry, Glan Ogwen yn gwasanaethu. Yr organydd oedd Mr J.D. Edwards.

Ymgymrodd tua dwsin o aelodau o blith merched yr eglwys â'r gwaith o lanhau'r eglwys erbyn yr ŵyl. Edrychai'r eglwys yn hardd iawn,



gyda'r seddau a'r pres yn disgleirio ac arogl glân a ffres yno.

DIOLCH - Dymuna Manon a Dafydd Morris, Gorffwysfa, 9 View Terrace ddiolch i'w perthnasau, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, arian a chardiau a dderbyniwyd ganddynt ar enedigaeth eu mab Llŷr.

LLONGYFARCHIADAU - I aelodau tîm snwcer ieuencid Deiniolen a enillodd bencampwriaeth yr ail adran

yn ystod tymor y gaeaf yng nghynghrair Bangor a'r Cylch. Gweler chwech ohonynt yn y darlun a'r rhai oedd yn absennol oedd Barry Thomas, Dennis Thomas, Barry Davies, Malcome Davies ac Ian Williams.

Yn sefyll yn y llun: Elfed Williams, Kelvin Lewis, Eyrn Owen, Adrian Evans, Kevin Jones, Gwyndaf Jones, Dilwyn Jones.

PÊL-DROED

LLANBERIS

Cynhaliwyd Cinio Blynyddol y Clwb yng Nghwesty Dolbadarn ar Fehefin 14. Llongyfarchwyd y tîm gan y Llywydd, Mr I. Ellis Jones a chyflwynodd dlws i bob un o'r chwaraewyr i gofio am dymor mor llwyddiannus yn ennill cystadleuaeth Cynghrair Caernarfon a'r Cylch, a hefyd Gwpan J.W. Lees, Gogledd Cymru. Iwan Evans a enillodd y tlws 'Chwaraewr y Flwyddyn', ac fe'i cyflwynwyd gan Mr Eric Roberts, Ysgrifennydd y Gynghrair.

Newydd da i bawb oedd deall fod Gwilym Williams am barhau yn ei swydd fel Rheolwr y Clwb am dymor 1980-81, a bod y rhan fwyaf o'r chwaraewyr yn ailarwyddo, ynghyd â rhai wynebau newydd.

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y clwb yn ystod y mis nesaf, ac y mae croeso i bawb ddod yno. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i'r holl gefnogwyr ac i unrhyw un arall a wnaeth ei ran i helpu'r Clwb yn ystod y tymor diwethaf.

LLANRUG

Er nad oedd Llanrug yn dathlu unrhyw fuddugoliaeth y tymor hwn, eto'i gyd yr oedd cryn waith cyflwyno tlysau yn eu Cinio Blynyddol hwythau a gynhaliwyd ar Fehefin 14 yng Ngwesty Victoria, Llanberis.

Uchafbwynt y noson oedd cyflwyno oriau i Mr Bob Thomas ar iddo wasanaethu'r Clwb am ddeng mlynedd fel Cadeirydd - y swyddog hwyaf ei wasanaeth yn y Clwb. Am iddo gyflawni 5 mlynedd fel trysorydd, anrhegwyd Mr John Ellis â thlws. Ar ran y chwaraewyr, cyflwynwyd tlws yr un i Peter Roberts a Vernon

Lloyd, y cyd-reolwyr am y tymor diwethaf. 'Roedd un chwaraewr arall i dderbyn tlws hefyd, sef Hugh Hughes, sydd wedi bod gyda'r Clwb am bum mlynedd. Yn anffodus, ni allai fod yn bresennol y noson honno.

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Clwb, nos Fawrth, Gorffennaf 1 yn y Sefydliad Coffa, Llanrug. Gwneir apêl am i unrhyw un sydd â diddorded yng ngweithgareddau'r Clwb i fod yn bresennol.

Bydd taith gerdded nodedig tuag at y Clwb Pêl-droed yn cael ei chynnal ar Orffennaf 5. Unrhyw un sy'n fodlon cerdded, cysyllter â D. Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug neu unrhyw aelod o'r Pwyllgor.

AR WERTH

- 1 Beic Merch 3 gêr
- 1 Beic Merch
- 1 Racer i ddyn
- 2 Feic i Eneth 7-10 oed
- 1 Beic i Fachgen 8-10 oed
- Tân Calor Gas symudol
- Ffôn Portdinorwig 670861

J.M. JONES A'I FAB

GWAITH CERRIG BEDDAU


DEINIOLEN

Ffôn: Y FELINHELI 670124

**WIL
a
VAL GUY
TREFLYN
STORES
BETHEL**

**Bwydydd, Melysion,
Teganau a Diodydd
Y FELINHELI 670237**

Cedric



BETHEL

PAN OEDD NAIN YN HOGAN

(O'r Genedl Gymreig, Ionawr 17, 1878)

ARY RADIO—Roeddem yn falch iawn o glywed llais Mrs Gweno Strike, Gwynt Eryri, 5100 North West Loop, San Antonio, Texas ar y rhaglen Alun yn Galw. Merch Mr a Mrs Ifor Jones, Awel y Grug yw Gweno ac mae wedi bod yn byw yn yr Unol Daleithiau ers 17 mlynedd. Er na fydd yn gweld Cymry o gwbl nid yw wedi colli dim ar ei Chymraeg.

Cafwyd cyfarchion pen-blwydd a dangoswyd llun Paul Meredydd mab Gweno ar yr Awr Fawr yn ddiweddar hefyd.

EISTEDDFOD BETHEL — Mewn cyfarfod o bwyllgor yr Eisteddfod yn ddiweddar penderfynwyd gwneud arbrawf diddorol gyda'r Eisteddfod eleni. Penderfynwyd cyfyngu holl gystadleuthau'r Eisteddfod i Fethel, Seion a Llanddeiniolen. Bwriad y Pwyllgor yn newid y drefn yw ceisio creu gweithgarwch a brwdfrydedd lleol. Mae trefniadau ar y gweill yn barod i ffurfio dau gôr, un i Saron a'r cylch ac un arall i Fethel ei hun. Gobeithir hefyd y bydd strydoedd, stadau neu gymdeithasau yn trefnu partion, côr adrodd neu wythawd. Os y ceir llwyddiant gyda'r arbrawf fe gawn eisteddfod i'w chofio a mwy na hynny pinacl yn unig fydd yr eisteddfod i weithgarwch a hwyl diwylliannol drwy'r gaeaf.

ADEILADU TAI—Mae gobaith y bydd caeau'r Gongol Ddu yn cael eu twtio cyn bo hir. Mae cais wedi ei wneud i Gyngor Bwrdeisdref Arfon am hawl cynllunio i adeiladu 42 o dai, sef 10 byngalo tair llofft, 18 tŷ semi tair llofft a 14 tŷ pedair llofft. Mae caniatâd i adeiladu tai eisoes wedi ei roi ar y tir ac fe ddechreuwyd ar y gwaith rai blynnyddoedd yn ôl ond aeth y cwmni i drafferthion cyn gorffen tŷ o gwbl.

CYDYMDEIMLO — Dydd Mercher, Mai 28 yn Ysbyty Môn ac Arfon bu farw Mr Owen Thomas, 13 Bro Rhos. Rydym yn cydymdeimlo'n fawr

gyda'r teulu yn eu profedigaeth.

LLONGYFARCHIADAU — Yn Eglwys Llanddeiniolen priodwyd Morfudd Elen, merch Mr a Mrs H.R. Roberts, Penrhos Farm, Bethel ag Owen Hefin, unig fab Mr a Mrs G. Thomas, Corn Hir, Llangefni.

Bwriadant gartrefu yn 14 Ystad Eryri, Bethel. Dymuniadau gorau i'r pâr ieuanc yma, ar ddechrau eu bywyd priodasol.

YN 18 OED — Llongyfarchiadau i Sion W. Jones, 26 Bro Rhos ac Elfyn Jones, 7 Bro Rhos ar gael eu pen-blwydd yn 18 oed yn ddiweddar.

CARNIFAL — Wrth ysgrifennu'r nodiadau yma mae disgwyl eiddgar am y Carnifal. Eisoes cafwyd Cymanfa llwyddiannus yn Y Cysegr nos Sul gyda chynulleidfda dda o bobl a phlant wedi troi i mewn. Gobeithir yn arw y ceir tywydd ffafriol ac y bydd yr wythnos o weithgareddau yn llwyddiannus unwaith eto.

DEWIS BLAENORIAID — Dewiswyd dau flaenor newydd y Y Cysegr yn ystod y mis sef Mrs M.G. Williams, Gwylfa a Mr Geraint Elis, Sycharth. Dymunir pob bendith i'r ddau yn eu cyfrifoldeb newydd.

Atodiad Waunfawr

DIOLCH — Mae Olwen a Norman Williams yn gorffen eu gwaith fel gohebwy'r pentref yr Eco gyda'r rhifyn hwn: Hoffwn ddiolch yn fawr iawn iddynt am eu gwaith eithriadol er lles y papur.

(Tony Elliott — Gol. Newyddion)

APÊL — Mae unrhyw un sydd wedi darllen y diolchiadau uchod yn sylweddoli wrth gwrs fod angen gohebydd pentref newydd yn y Waunfawr. Os oes unrhyw un â diddordeb, cysylltwch â Tony Elliott, Crud y Wawr, Penisarwaun os gwelwch yn dda.

LLANBERIS

Chwarelwyr Glynrhonwy a'r Cylch. Boreu dydd Iau diwethaf y peth cynta a wnawd gennym yna ar ol darllen yr adroddiad difrifol yn y Genedl, oedd penderfynu gwneyd ein rhan at leddfu trueni ein cydgenedl yn y Deheudir. Rhanwyd y gwaith i wahanol ddosbarthiadau, ac aeth casglyddion trwyddynt, ac erbyn hanner dydd yr oedd y swm hardd o £6-7-6 wedi eu casglu. Anfonwyd yr arian trwy law Mr David Evans, goruchwyliwr y chwarel, i ofal y Parch Wynne Jones, Vicer Aberdâr.

Y NEWYD YN Y DEHEUDIR

Cronfa y Genedl Gymreig.

Casgliad Ponc Pant y Ceubren Dinorwic.

£10:14:0

Casgliad Ponc Moses Dinorwic

£5:0:0

Chwarel Coed Madoc Nantlle

£3:7:6

Plant Ysgol Dolbadarn

£10:12:0

Plant Ysgol Llangeinwen

£0:13:0

cyflwynir yr arian i'r Pwyllgorau Cyffredinol yn Merthyr ac Aberdâr trwy law Mr Henry Richard A.S.



CYSTADLEUAETH LLUNIO RHAGLEN DELEDU

Cystadleuaeth llunio rhaglen deledu (stiwidio) i bara hanner awr gan ddefnyddio unrhyw gyfrwng ond ffilm. Gall fod yn waith un neu gywaith, yn ffeithiol neu ddychmygol. Teledir y goreuon yn gyfres o'n stiwdio yn Yr Wyddgrug

Am fanylion pellach, cysyllter â: Gwyn Erfyl, HTV Cymru Wales, Theatr Clwyd, Yr Wyddgrug, Clwyd.

OSMOND W. SHAW



Peiriannydd
Radio a Theledu
& Gwasanaeth Awdio

BWLCH UCHAF

DEINIOLLEN

Ffôn Llanberis 545

Gwasanaeth 'run diwrnod
os ffoniwch
cyn 10 o'r glach

Ai chi
sy'n darllen
CURIAD?
PAPUR BRO CYMRU
GYFAN



Ar werth yn eich siop bapur—
holwch amdano 30c

PENISARWAUN

PÊL-DROED - Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed merched Penisarwaun ar ennill yn Llanrug yn erbyn Llanberis o ungôl iddim. Tim Penisarwaun oedd: Ffion Parry, Carys Wyn Williams, Eurgain Roberts, Ffion Larsen, Meirwen Williams, Diane Griffiths, Alison Jones a'r olaf yma a sgoriodd i'w thîm. Y gêm nesaf fydd yn erbyn Deiniolen yn Llanrug.

YMDDIHEURIAD - Yr ydym yn ddiolchgar iawn i Miss Laura Jones, Tai Madog am roi benthg y ddau lun yn dangos y trê bach a'r lein a welwyd gydag erthygl 'O Gaban y Chwael' yn y rhifyn diwethaf o'r Eco. Ymddiheurwn am anghofio cynnwys ei henw wrth y lluniau.

MARWOLAETH - Yr oedd yn ddrwg gennym glywed bod Mrs Huyton, Trewen, wedi marw yn yr ysbyty.

MEWN YSBYTY - Gwellhad buan i Miss Miriam Thomas sydd yn wael yn yr ysbyty.

MRS JONES, Tŷ GWYN - Gobeithio y byddwch yn well yn fuan wedi'ch anaf yng Nghaernarfon.

YMDDEOL - A gawn ni ddymuno ymddeoliad hir a hapus i'r tri isod sydd wedi ymddeol neu ar fin ymddeol. Mr Ken Mowll, Bryntirion; Mr Tommy Davies, Tai Newyddion a Mr Peter Williams, Llwyn Derw.

PEN-BLWYDD YN 18 OED - Pen-blwydd hapus i Robert Oulton sydd newydd gael ei ben-blwydd yn 18 oed a hefyd Margaret June Adlam sy'n 18 oed ar Fehefin 28.

EGLWYS ST HELEN - Cafwyd noson goffi dan nawdd Undeb y Mamau nos Lun, Mehefin 2. Fe anfonwyd yr elw i'r Cymorth Cristnogol. Rhoddwyd y lluniaueth gan Mrs Mowll; Mrs O.C. Roberts a Mrs M. Davies. Llongyfarchwyd Mr a Mrs Mowll ar fod yn daid a nain am y tro cyntaf. Anfonwn ein dymuniadau da i Carys, Dafydd a'r eneth fach, Claire. Dymunwyd gwellhad buan i Mrs T.W. Griffiths, 16 Bryntirion. Balch oeddym o glywed bod David Williams, 23 Bryntirion wedi ennill dwy fedal aur eto. A hefyd Dewi Jones, Bethel, (7wyr i Mrs Jones, 5 Llys y Gwynt) wedi ennill tarian efo'i enw arni am bysgota yn Llyn Brenig. Cydymdeimlwn â Mr a Mrs I. Williams, Glyn Euron yn eu profedigaeth.

DYLAN E. JONES - 'Rydym yn falch o glywed bod Dylan Meillionydd wedi gwella. Bu Dylan am gyfnod yn

ysbyty Alder Hey, Lerpwl

O'R YSBYTY - Croeso yn ôl i'n plith i Mr G. Parrot, 10 Bryn Eglwys, ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Llandudno.

CROESO ADREF - I Alun Hughes, mab Mr a Mrs Elwyn Lloyd Hughes, 12 Bryn Eglwys. 'Roedd Alun yn aelod o'r tîm o ddringwyr o ardal yr Eco a welwyd yn dringo mynyddoedd yr Andes yn y Wladfa yng nghyffwrdd y BBC 'Antur yn yr Andes' yn ddiweddar.

CYDYMDEIMLWN - ag aelodau teulu Glyn Euron yn eu gofid a'u profedigaeth. Bu farw mam Mr Ieuan Williams yn ddiweddar wedi cyfnod o'i hiechyd yn pallu. Pan yn aros ym Mhenisarwaun byddai Mrs Williams yn mynd i Libanus, capel y Bedyddwyr yng Nghlwt y Bont.

GWYL BENISARWAUN - Nos Lun, Mehefin 30. 7pm Pêl-droed. Bechgyn Penisarwaun v Bechgyn Cwm-y-glo.

Nos Fawrth. 6.30 pm. Noson Goffi yn Neuadd yr Eglwys gyda'r consuriwr Huw Edwards.

Nos Fercher. Gorffennaf 2. Noson o chwaraeon i blant gyda chystadlu rhwng 4 ysgol, sef Ysgol Tan-y-coed; Ysgol y Gelli, Ysgol Santes Helen ac ysgol Waunfawr 6.30 p.m.

Nos Iau. Gorffennaf 3. Disgo yn Neuadd yr Eglwys. Plant Ysgolion Cynradd 6.30 pm - 7.30 pm 10c, Plant Ysgolion Uwchradd 7.30 ymlaen 20c.

Nos Wener. Gorffennaf 4. y Carnifal ar Gae King yn dechrau am 6 pm. Beirniaid, Mr a Mrs Dafydd Iwan a Mr a Mrs Meirion W. Jones. Cystadlaethau, gwobrau hael a niferus. Hefyd seindorf Deiniolen a Majorettes Llanrug. Cychwyn o'r Clwb Y GENHADAETH DRAMOR -

Llongyfarchiadau i 5 aelod ifanc o Ysgol Sul Capel y Waun sydd wedi casglu cyfanswm rhyngddynt o £43.73 o ddrws i ddrws tuag at yr uchod. Diolch yn fawr blant. Dyma'u henwau, Dylan E. Jones, £10.55, Jonathan V. Richardson, £8, Mark S. Porter, £6, Caroline Jones, £5.73 Dyfed Jones, £5.45.

YSGOL TAN-Y-COED - Bu nifer o'r plant yn cystadlu ym Mabolgampau'r Urdd Cylch Arfon ar gae Ysgol Brynrefail.


Rhaid llongyfarch yn arbennig Meirwen Williams (1af am Daflu Pêl dan 11 oed) ac Angharad Crew (3ydd Naid Hir dan 9 oed).

CLWB YR HEULWEN - Aeth aelodau'r clwb ar wibdaith i Fetws-y-coed, Y Bala ac yn ôl i Borthmadog. Er gwaethaf y tywydd cafwyd amser difyr iawn. Bydd y cyfarfod nesaf ar 15 Gorffennaf.

MRS EVANS, BOD IDRIS - Mae Mrs Evans yn yr ysbyty yn dioddef o'r bronchitis. Dymunwn adferiad buan iddi.

PRIODAS - Yn Eglwys y Santes Fair, Caernarfon priodwyd Islwyn Williams, mab y diweddar Mr a Mrs G. Williams, Bryn Rhydd Mawr, ag Iris, merch Mr a Mrs J.R. Jones, 7 North Penrallt, Caernarfon. Dymuniadau gorau iddynt.

TÎM CRICED YSGOL BRYNREFAIL 1948



Diolch i Mrs Nesta Jones, 2 Llys-y-gwynt, Penisarwaun am y llun uchod. Yn eistedd ar y llawr: Elwyn Jones; Owain Hughes. Rhes flaen: Mr James; Ieuan Ellis; Iorwerth Morris; Jonah Jones; Mr Thomas (Prifathro). Rhes ôl: Meirion Owen; Myrddin Jones; Madoc Jones; Selwyn Williams; Derlyn Jones; Emrys Thomas. Boddwyd Emrys Thomas tra'r ymarfer ar gyfer y Râs Gychod rhwng Rhydychen a Chaergrawnt yn ddiweddarach.

CEUNANT

CYDYMDEIMLAD - Yn ystod y mis bu farw Mrs Peggy Jones, Hafod Owen. Gwraig dawel a hynod o boblogaidd oedd Mrs Owen ac mae cydymdeimlad yr ardal yn mynd i'w phriod a'i phlant a'r teulu oll.

YN YR YSBYTY - Gwellhad buan i Mrs Thomas, Arwelfa a Mr William Ellis Owen.

CROESO ADREF - O'r ysbyty i Mrs Guy, Bryn Tirion.

BETWS GARMON

DAU YRRWR NEWYDD - Llongyfarchiadau i Eirian Williams, Ty'n Weirglodd a Richard Davies, Castell Cidwm ar eu llwyddiant diweddar mewn prawf gyrru.


O'R YSBYTY - Croeso adref i Sara Williams, Parc ar ôl bod yn Ysbyty Môn ac Arfon am driniaeth lawfeddygol.

LLWYDDIANT ETO - Llongyfarchiadau i Mr H.O. Jones, Tŷ Coch ar ei lwyddiant eisteddfodol.

GORS BACH PANEL BEATING SERVICE Cwm-y-glo

Ffôn : LLANBERIS 814

GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR



Gwesty Dolbadarn

Tŷ

Rhydd-

Feddiant

Llanberis

FFÔN : LLANBERIS 277

Perchennog

Aneuryn

Jones

MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS
NEU GINIO BLYNYDDOL

Hefyd

CANOLFAN DRECIO

Holwch am ein

telerau rhesymol



NANT PERIS

GWIBDAITH - Bydd gwibdaith ysgolion Sul Rehoboth a Sant Peris yn mynd i'r Rhyl ar Orffennaf 5. Cychwynnir am 8.30. Enwau at Mrs J.M. Williams mor fuan ag sydd bosibl.

CROESO - Croeso i Glyn Williams a'i deulu i fyw i 1 Bro Glyder. Mae Glyn yn enedigol o Lanberis a'i briod o'r

Almaen. Gobeithio y byddant yn hapus yn ein plith.

DIOLCH - Dymuna Charles Lovell ddiolch i'w berthnasau, cymdogion a chyfeillion am bob caredigrwydd a dderbyniodd mewn gair a gweithred tra bu'n wael ei iechyd yn ddiweddar. Hefyd diolch i bawb am y llythyrau a'r cardiau a dderbyniodd.

LLANBERIS

CYMANFA BREGETHU – Cynhaliwyd Cymanfa Bregethu yng nghapel Nant Padarn, gyda'r Parchedigion Wilbur Lloyd Roberts, Llandybie, a Gareth Maelor Jones, Bontnewydd yn gwasanaethu.

CLWB YR HENOED – Yn y pwyllgor diwethaf a gynhaliwyd gyda Mrs M.B. Hughes yn llywyddu, croesawyd pum aelod newydd ar y pwyllgor gwaith. Estynnwyd croeso iddynt, gan y llywydd, a phasiwyd cydymdeimlad â Miss A. Jones wedi iddi golli ei brawd.

Dymunwyd gwellhad buan i amryw o'r pensïynwyr sydd yn cwyno. Penderfynwyd trefnu'r trip eleni i Landudno, ar y 21 o'r mis.

LLONGYFARCHION – I Nyrs Marian Jones ar ei llwyddiant yn yr arholiadau yng Ngholeg Wrecsam i fod yn 'Ymwelydd lechyd'.

YR EISTEDDFOD – Cyfarfu aelodau o bwyllgor Eisteddfod yr Eglwys Rhyddion, dan lywyddiaeth Y Parch Marcus Robinson. Y swyddogion newydd yw: llywydd, Parch Marcus Robinson; ysgrifennydd, Mrs C. Ll. Williams, Is-ysgrifennydd, Mrs Lola Sellars; trysorydd, Mrs Ceinwen Williams.

YNGWELLA – Dyna yw hanes amryw o'r ardalwyr – rhai yn yr ysbty a rhai yn eu cartrefi, Gobeithiwn eu gweld o amgylch y pentref yn fuan iawn: Mrs Edith Hughes, Cadfan; Mr Norman Jones, Ffordd Capel Coch; Mr Ted Pritchard, Ffordd Padarn; Mrs Richard Jones, Ffordd Capel Coch; Mrs B. Arfon Owen, Maes Padarn a Manon, merch fach Mr a Mrs Derek Roberts, Stryd yr Wyddfa; Mr Eurwyn Jones, Delfryn.

DAMWAIN – Ddechrau'r mis cafodd Mr Ifan Owen, Maes Padarn ddamwain wrth ei waith yng Nghynllun Trydan-dŵr Dinorwig. Deallwn ei fod wedi dychwelyd adref o'r ysbty ym Mangor. Dymunwn wellhad buan iawn iddo.

GWASANAETH DATHLU – Yn Eglwys Sant Padarn cynhaliwyd gwasanaeth arbennig iawn i ddathlu pum mlynedd ar hugain o wasanaeth ffyddlon y Canon Alun Jones, fel rheithor y plwyf.

'Roedd yr eglwys yn orlawn gyda chyfeillion o'r eglwys eraill yn falch i ddangos eu gwerthfawrogiad o'r gwasanaeth diffuant a roddwyd gan y rheithor.

Estynnwyd cyfarchion iddo gan y Parch M. Robinson ar ran yr eglwys rhyddion, a darllenodd Salm 84. Darllenwyd y llithoedd gan Mr Derek Jones, Cafwyd anerchiad gan Miss C. Gillespie, a chyfeiriodd at y gwaith a wnaeth y rheithor nid yn unig yn y plwyf ond hefyd gwaith yr eglwys drwy Gymru mewn adrannau arbennig iawn.

Cyflwynwyd siec sylweddol i'r rheithor ar ran eglwys Sant Padarn a Pheris gan Mr R.E. Williams, Warden yr Eglwys. Ar ran yr Ysgol Sul, cyflwynodd Heather Roberts, feiro aur iddo, ac ar ran Ysgol Dolbadarn cyflwynodd y prifathro, Mr J.H. Hughes, ganhwylbren arian iddo.

Diolchodd y rheithor i bawb o'r cyfeillion a'r aelodau am eu caredigrwydd a'u haelioni. Rhoddodd fraslun o'r gwaith a wnaed gan ei chwe rhagflaenydd. Ym 1984 bydd Sant Padarn yn dathlu ei chanmlwyddiant.

Cymerwyd rhan amlwg iawn yn y gwasanaeth gan y côr, wedi eu gwisgo mor ddeniadol a hardd.

MARWOLAETHAU – Yn ystod y mis bu amryw o farwolaethau, a chydymdeimlir â'r teuluoedd i gyd yn eu profedigaeth.

Miss May Davies. Yn yr ysbty yn Nghaernarfon, lle bu'n glaf am amser

maith bu farw Miss May Davies, 5 Stryd Siarlot. 'Roedd yn 71 mlwydd oed, ac wedi byw ei hoes yn yr ardal. Gwasanaethodd yng nghegin yr ysgol leol am flynyddoedd lawer, ac 'roedd yn fawr ei pharch gan yr holl ardalwyr. Cymeriad tawel a thyner iawn, yn ffyddlon i waith yr achos yng Ngorffwysfa, pan oedd ei hiechyd yn caniatáu. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan y Parchedigion M. Robinson, Fred M. Jones, Arthur Thomas a Mr Gwynfor Williams.

Mr Tom Williams, Yn ei gartref yn Stryd Newton, bu Mr Tom Williams farw yn sydyn iawn. 'Roedd yn 72 mlwydd oed ac wedi dioddef ers amser maith. Daeth yma o Fethel i'r ardal i fyw tua 40 mlwynedd yn ôl, ac i ddilyn ei orchwylion yn y chwarel.

Cymeriad hynod o ddistaw ydoedd – yn fawr ei barch gan ei gydweithwyr. Bu'r gwasanaeth angladdol yn eglwys Sant Padarn, wedyn yn yr Amlogsgfa ym Mangor. Cydymdeimlwn â'i weddw, a'i unig ferch a'i theulu.

Mrs Katie Roberts. Yng nghartref Pengwaith bu farw Mrs Katie Roberts, ar y 14 o'r mis hwn. Daeth i fyw i'r ardal tua 8 mlynedd yn ôl o Frynrefail. Bu farw ei gŵr dair blynedd yn ôl. Gwraig dawel a bonheddig iawn ydoedd, yn adnabyddus i bawb o'r ardalwyr oblegid ganwyd a magwyd hi yn Brynteg, ac yno y trigodd hyd farw ei theulu. Claddwyd hi ym mynwent Nant Peris, gyda'r Parch M. Robinson yn gwasanaethu. Cydymdeimlir â'r tri mab a'u teuluoedd yn eu profedigaeth.

Mrs Ellen Parry. Yn ysbty Bodolwyddan ar y 17 o'r mis hwn, bu farw Mrs Ellen Parry yn 96 oed. Cyn symud i'r Rhyl 'roedd yn byw gyda'i mab yng Nglan y Don. Collodd ei gŵr, y diweddar William Parry 49 mlynedd yn ôl. Gwraig dawel iawn, gydag achos Crist yn brif nod ei bywyd. Tra yn Llanberis cymerai ran flaenllaw ym Mhreswylfa ac wedi symud i'r Rhyl parhai ei diddordeb yn y pethau gorau, a chymerodd ran flaenllaw o hyd yn ei chapel, tra gallodd. Cydymdeimlir â'i dau fab – John Howard a Cledwyn a'r teuluoedd, hefyd ei chwaer. Claddwyd hi ym mynwent Nant Peris, ddydd Sadwrn, gyda'r Canon Alun Jones yn gwasanaethu. Bu gwasanaeth angladdol yn ei heglwys yn y Rhyl ddydd Gwener.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cynhaliwyd cyfarfod o'r mudiad yn ystod y mis gyda Mrs Hannah Jones yn llywyddu. 'Roedd y noson yng ngofal Miss Nia Jones, Pen y Groes, a mwynhawyd y cyfan yn fawr iawn.

UNDEB Y MAMAU – Ar Fehefin 3 cynhaliwyd gwasanaeth misol undeb y Mamau gyda'r rheithor yn gwasanaethu. Dilynwyd y gwasanaeth gydag araith ac arddangosfa o waith llaw gan y Parch A.W. Cherry o Dal-y-sarn.

DIOLCH – Carai teulu'r ddiweddar May Davies, Stryd Siarlot ddiolch yn gynnes iawn i bawb am eu cydymdeimlad a'u caredigrwydd; am yr holl gardiau a dderbyniwyd a hefyd y rhoddion tuag at ward Gwyrfa, Ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon. Maent yn rhy niferus i'w hateb yn unigol.

LLONGYFARCHION – I Helen a Bill Abraham Thornbury, Lerpwl ar enedigaeth eu merch fach – Siân, wyres fach arall i nain, Mrs Mair Ll. Roberts, Oakview, Stryd Warden.

Mrs Mary Ellen Davies. Fore Mawrth, Mehefin 17 bu farw Ellen Davies, gweddw'r diweddar William John Davies yn ei chartref, 13 Dôl Elidir. 'Roedd ei hiechyd yn fregus

iawn ers rhai blynnyddoedd ac ni allai fynd o gwmpas lawer iawn. Cymeriad tawel ydoedd, ac yn gymydog tawel a charedig. Claddwyd hi ym mynwent Llanberis, fore Sadwrn, 21 gyda'r Canon Alun Jones yn gwasanaethu. Estynnir cydymdeimlad â'r mab a'r ddwy ferch, a'u teuluoedd, yn eu profedigaeth o golli mam a nain

hoffus.

Y BROWNIES – Cafodd 40 o blant eu bathodynau a'u tystysgrifau aelodaeth mewn cyfarfod yn y Ganolfan, nos Wener, Mehefin 13. Cynhelir y 'Brownies' dan ofalaeth Mrs Stott, Garth Maelog. Enillwyd y raffl gan Mrs V. Thomas, Maes Padarn.



Plant Ysgol Dolbadarn ar ôl derbyn eu tystysgrifau beicio oddi wrth y Cynghorydd Francis Jones. Yn y llun hefyd mae Mr Wilbert Owen, gofaluwr yr ysgol, a fu'n hyfforddi'r plant.

WYTHNOS GARNIFAL LLANBERIS

Noson I'r Teulu

NOSON O GÂN

Yng nghwmni
Côr Godre'r Aran
Alawon Menai

Parti Cerdd Dant Ysgol Dolbadarn
Arweinydd y Gân: Mr Gwyndaf Parry
Organydd: Mr Hugh Peris Pritchard
Yng Nghapel Coch LLANBERIS


Nos Sul, Gorffennaf 13
am 8.00 (Drysau'n agored 7.30)
Mynediad trwy raglen – Pris 40c; Plant a Phensiynwyr: 20c

Os am raglenni drwy'r post – cysylltwch ag Arwel Jones, Caernarfon 3719

PADARN ROC

GORFFENNAF 12, 1980
CARNIFAL LLANBERIS
MAES PARCIO, GWESTY'R FICTORIA
3.00

TOCYNNAU:
£2.50 ymlaen llaw
£3.50 a'r y noson
Cyflwynydd:
Bryn Fon (SER)



Trefnydd
John Gwyn Williams
Eirania Llanberis. Ffôn: Padarn 254

Ffiniau'r Gorffennol

TELERAU PRENTIS YR OES O'R BLAEN

Rai blynyddau yn ôl bellach, rhoddodd Mrs Lewis, Glan Barlwyd, Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog fenthyg Cytundeb (Indenture) Saesneg i mi. Gwnaed y Cytundeb dros gan mlynedd yn ôl rhwng Daniel Lewis Dinorwig (perthynas iddi) a pherchenogion ffyrm yn y Felinheli. Gwnes innau trwy ganiatâd Mrs Lewis rwydd gyfieithiad o'r Cytundeb. Y mae'n ddarlun cywir o amgylchiadau a thelerau prentis yr oes honno. Y mae pethau wedi newid llawer. Efallai bod telerau heddiw yn rhy hawdd a bod telerau prentis yr oes o'r blaen yn rhy galed.

Y CYTUNDEB 1873

"Y mae'r Cytundeb (Indenture) yma yn tystio bod Daniel Lewis o Ddinorwig, Sir Gaernarfon, yn ei roi ei hun yn brentis i Rees Jones a'i Fab, y Felinheli, adeiladwyr llongau, er mwyn dysgu eu crefft ac wedyn aros gyda hwy fel prentis o Fawrth 28 hyd Fawrth 28 1878.

"Rhaid iddo aros i derfyn y tymor, yna rhaid i'r prentis uchod wasanaethu'n ffyddlon, cadw pob gorchymyn cyfreithiol ym mhob man, a hynny yn llawen. Ni ddylai wneud unrhyw niwed i'w feistri nac edrych ar eraill yn gwneud hynny, ond hyd ei allu ddweud neu rybuddio ei feistri os gwêl unrhyw beth annheg.

"Ni ddylai wastraffu eiddo'r meistri a enwyd na rhoi eu benthyg yn anghyfreithiol i unrhyw un. Ni ddylai briodi yn ystod y tymor a enwyd, na chwarae cardiau, na chwarae hap ar fyrddau, nac unrhyw chwarae anghyfreithlon a fyddai yn debygol o achosi colled i eiddo ei feistriaid neu eiddo rhywun arall yn ystod y tymor a nodwyd, a heb drwydded gan ei feistri, ni ddylai brynu na gwerthu, ni ddylai fynychu tafarndai na chwarae-dai, na bod yn absennol oddi wrth wasanaeth ei feistri ddydd na nos yn afreolaidd ond ym mhob peth fel prentis ffyddlon rhaid iddo ymddwyn yn iawn tuag at ei feistri yn ystod tymor ei brentisiaeth.

"A rhaid i Rees Jones a'i Fab dalu i Daniel Lewis gyflog am ei waith yn ôl pedwar swllt yr

wythnos am y flwyddyn gyntaf: pum swllt yr wythnos am yr ail flwyddyn; chwe swllt yr wythnos am y drydedd flwyddyn; wyth swllt yr wythnos am y bedwaredd flwyddyn; a deg swllt yr wythnos am y bumed a'r flwyddyn olaf o'i brentisiaeth, a rhaid iddynt ddysgu'r prentis yn ei grefft fel gof yn y modd gorau posibl.

"Y mae'r partion a enwyd uchod yn eu rhwymo eu hunain i'w gilydd gyda'r gytundeb hon. Ac fel tystion y mae'r partion yn arwyddo eu henwau a'u selio ar yr 29 diwrnod o Fawrth yn y 36 flwyddyn o deyrnasiad ein Brenhines Victoria trwy Ras Duw o Brydain Fawr ac Iwerddon, Brenhines, Ceidwad y Ffydd, ac yn y flwyddyn mil, wyth gant a saith deg tri.

"Rhaid i'r swm o arian neu werth unrhyw beth arall a roddwyd neu a gytunwyd i'w roddi gyda'r prentis fel blaendal gael ei nodi mewn geiriau, neu bydd y cytundeb hwn yn ddi-werth, a dwbl y swm yn cael ei golli.

Arwyddwyd:

Rees Jones & Son
Daniel Lewis

Tyst i'r llofnodion:

James Hughes, Augusta Place,
Portdinorwic


THE DISCHARGE

This Indenture is hereby discharged, its Covenant having been duly honoured to mutual satisfaction.

signed:

Rees Jones & Son
Daniel Lewis

March 29th 1878



Porthladd Dinorwig - Felinheli tua 1900. Llun trwy garedigrwydd Mr Gwilym Vaughan Jones.



Yn dilyn apêl yn yr Eco dyma lun o Gymdeithas Gorawl Llanberis yn y flwyddyn 1935. E Y llun drwy garedigrwydd Mrs Nesta Jones, Penisarwaun.

Y MOCHYN DU

Byddai llawer iawn o ganu ar yr hen gerdd 'Y Mochyn Du' ddechrau'r ganrif hon. Dyma hi yn gyflawn.

Holl drigolion bro a bryniau
Dewch i wrando hyn o eiriau, -
Fe gewch hanes rhyw hen Fochyn
A fu farw yn dra sydyn.

Cytgan

O! mor drwm ydym ni!
O! mor drwm ydym ni!
Y mae yma al r calon
Ar ôl claddu'r Mochyn Du.

Beth oedd achos ei afiechyd?
Beth roes derfyn ar ei fywyd?
Ai maidd glas oedd achos angau
I'r hen fochyn i fynd adra'?

Fe row'd mwy o faidd i'r mochyn
Na all'sai'i fol bach i dderbyn:
Ym mhen 'chydig o funudau,
Dyna'r mochyn yn mynd adra'.

Rhedodd Deio i Lwyncelyn,
'Mofyn Mati at y mochyn:
D'wedodd Mati wrtho'n union
Gall'sai roi o heibio'n burion.

Gweithiwyd iddo focs o dderi,
Wedi ei drimio a'i berarogli:
Ac fe weithiwyd bedd ardderchog
I'r hen Fochyn yn Caerncoediog.

'Mofyn 'hearse' o Aberteifi
A cheffylau i'w gario fyny -
Y cheffylau yn llawn 'mourning'
Er mwyn dangos parch i'r Mochyn

Y Parchedig ŵr Twm Griffy,
Ydoedd yno yn pregethu:
Pawb yn sobr anghyffredin
Er mwyn dangos parch i'r Mochyn.

Mati Joseph, Pegi, Wili,
Ydoedd yno yn blaenori,
Pawb o'r teulu yno'n canlyn,
Er mwyn dangos parch i'r Mochyn.

Pawb yn gryno ddaethant adra',
Oll a'u napcyn wrth eu pennau
Ac yn wylo'n anghyffredin,
Hiraeth mawr ar ôl y mochyn.

Edrych fyny at y bachau,
Gwel'd hwy'n wag heb yr ystlysau,
Dim un tamaid 'roi i undyn,
Colled fawr oedd colli'r Mochyn.

Melys iawn oedd cael rhyw sleisen
O gig mochyn gyda'r daten:
Ond yn awr rhaid byw heb hwnnw -
Y Mochyn Du sy' wedi marw.

Bellach 'rydwyl yn terfynu
'Nawr gan roddi heibio canu,
Gan ddymuno peidiwch dilyn
Siamp l ddrwg wrth fwydo'r mochyn.

Cytgan

O! mor drwm ydym ni!
O! mor drwm ydym ni!
Y mae yma alar calon
Ar ôl claddu'r Mochyn Du.

John Owen

Burry Port

GARDDIO -

Tomatos yw'r planhigion mwyaf poblogaidd mewn tŷ gwydr. I gael tyfiant dyma'r pethau pwysicaf i'w cofio:

1. Eu cysgodi rhag llosgi mewn haul tanbaid drwy beintio'r gwydr â coolglass.
2. Agor y ffenestri a dyfrio'r lloriau i gadw'r awyrgylch yn llaith.
3. Mae'n bwysig fod pob blodyn yn cael ei gyfran o baill. Dylid anelu chwistrelliad ysgafn o ddŵr dros y blodau er mwyn chwalu'r paith, yn enwedig ar y rhai sy'n tyfu mewn clwstwr yn ymyl y gwydr. Cofiwch dim peillio - dim tomatos!
4. Bwydo pob planhigyn gyda bwyd mewn dŵr unwaith pob pythefnos. Mae gwahanol fathau o'r bwydydd ar y farchnad. Pan fo'r tomatos cyntaf bron cymaint â phen bawd, dylid eu bwydo ddwywaith yr wythnos.
5. Cofio tynnu'r tyfiant rhwng y

AGOR HAF



Mr Dafydd Wigley, A.S., Miss Iris Parry, Maer Pwyllgor Tai Arfon yn agor yn swyddogol cart Darparwyd lluniaeth ysgafn ar gyfer yr achly

G LLANBERIS



Y llwyr Eisteddfod Caernarfon yr un flwyddyn dan arweiniad Mr Charles Owen.

Y Tŷ Gwydr

dail a'r prif foncyff gan eu bod yn dwyn maeth. Os na wneir hyn bydd y tomatos fel marblis!

6. Dim ysmegu. Mae firws mewn baco sy'n dinistrio dail tomatos. Dylai ysmegwr wisgo menyng neu ddiheintio'i ddwylo â formalin cyn cyffwrdd â'r planhigion.

7. Os try blaen y ddeilen newydd yn felyn, chwistrellwch drostynt lond dwy lwy de o *Magnesium Sulphate* neu *Epsom Salts* mewn dŵr. Rhewch ychydig i'r gwreiddiau hefyd ar gyfer tyfiant newydd. Mae'r *magnesium* yn angenrheidiol i'r cloroffil, sef y lliw gwyrdd yn y ddeilen.

8. Dyfrio at ganol dydd os yn bosibl er mwyn i'r dail sychu. Hawdd yw i ffwng dyfu ar ddail gwlyb. Os yw hi'n anodd cadw'r dail isaf yn sych ac yn iach, torrwyd hwy i ffwrd. Os ymddengys ffwng dylid chwestrellu'r cymysgedd *Bordeaux* a dŵr arno.

AN ELAN



Ingor Arfon a Mr Neville Hughes, Cadeirydd y Ffôn henoed yn Llanrug. Yr unig unigolion.

- Straeon Adar

Yn ôl Mr Peter Hope Jones a Mr Peter Dare yn eu llyfr *Birds of Caernarvonshire* dylai y Wennol Ddu ei 'throi hi am adra' gannol mis Awst. Ond wyddoch chi fod 'na un wedi aros yn ardal Deiniolen yn y flwyddyn 1965 tan 24ain o Hydref. Mae'n rhaid ei fod wedi cael croeso mawr yno gan rywun!

Nid yw'r Troellwr Mawr (*Nightjar*) yn rhy hoff o'r Sir yma - ond daeth yn ei dro i Ddeiniolen.

Aderyn pur anghyffredin i ni ydyw Golfan y Mynydd ond mae ystadegau yn dangos i ddau ohonynt syrthio mewn cariad a chartrefu wrth ymyl Llanberis a chael llond tŷ o blantos!

Os dwed rhywun wrtho chi ei fod wedi gweld Brân Goesgoch - mae o'n dweud y gwir. Maent yn cartrefu mewn hen dyllau chwarel. Gwelwyd saith ohonynt ar Awst 27, 1962 yn hedfan yn uchel uwchben Llanddeiniolen. Ydach chi wedi gweld un?

Cafwyd cip ar Dylluan Gorniog yn Llanberis - rhywdro rhwng 1890-1910. Mae'r Sofliar wedi cadw draw er pan welwyd rhai yn ardal Deiniolen yn y flwyddyn 1964.

Ond eisteddwch yn ôl - ni welwyd Eryr Euraid yn y fro yma ers y 17g.

**Wavell
Roberts
CIGYDD**

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO!

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus

Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

GWELL HWYR NA HWYRACH

YN RHIFYN Medi 1976 (Rhif 7) o *Eco'r Wyddfa*, 'roedd erthygl ar y Car Gwyllt gan Hugh R. Jones o Lanberis. Ar ddiwedd yr erthygl ceir 10 o benillion a anfonwyd gan Mr a Mrs Robert Pritchard o Benisarwaun, sef 'Galarnad y Car Gwyllt'; ond nid oedd gwybodaeth ynglŷn â'r awdur. Wedi aros am bron bedair blynedd, mae'r *Eco* yn falch o gael cyhoeddi mai Ap Glaslyn (John Owen) yw'r awdur.

Mr Gwilym Roberts, Fron Oleu, Llanberis sy'n gyfrifol am y wybodaeth a dyma ran o'i lythyr: "Wedi darllen erthygl ddiddorol Mrs M.G. Williams, Bethel yn rhifyn diwethaf (*Eco'r Wyddfa*), carwn ychwanegu at hyn drwy roddi un o gerddi y diweddar John Owen (Ap Glaslyn), Foty'r Awen, Clegir, am ddiwedd y Ceir Gwyllt a dechrau Trên y Gweithwyr. Cyhoeddwyd y gerdd hon gyntaf yn *Yr Herald Cymraeg*, Rhagfyr 1895."

Mae'n werth cyhoeddi'r penillion unwaith eto. Sylwch fod 46 o'r ceir gwyllt yn cael eu henwi yn y gerdd; yn gymysgfa o Gymraeg a Saesneg, o enwogion y cyfnod i enwau mynyddoedd, afonydd a llynnoedd, a hyd yn oed anifeiliaid a chreaduriaid.

GALARNAD Y CEIR GWYLLT

Mae popeth bron yn newydd
Ar fynydd ac ar fôr,
Tra'r hen yn unig erys
Mewn hanes yn ystôr;
Yn dilyn dydd galarnad
My Lord am ride and drive,
Daeth diwedd Car y Gweithiwr
Yn eighteen ninety five.

Yn iach gerbydau gwylltion
I'ch cicio ac i'ch troi,
Mae'ch enwau drwy'r alarnad
Mewn iard wedi eu rhoi;
Ffarwel i Garibaldi
Eryri a'r Pry Llwyd,
Y Ga eg gyda'r Ebol
Fu'n mynd heb fol na bwyd.

Mae Vivian, George a Gladstone
A Livingstone a Stag
A Picton hefo Nelson
A Samson i gael sag;
Caiff Jennie bach a Hobley
O'r neilltu fynd am byth,
Ffarwel 'run ffordd â Snowdon,
Victoria, Llew a Smith.

Ta ta 'rhen Siân a Peris,
Tom King a'r Marquis Mawr,
Gan uno Albert, Aston
A Wellington i lawr;
Tra'r Prince Llewelyn yntau

A'r llanciau ym mhob llun,
Fe'u cwmpir rhag yr ager
I'r gwter bob yn un.

Wrth ildio cicio'r *Cacwn*
Ffarweliwn heb un ffrac,
Tra rhown i fyni'r *Vaenol*
Ar goll i Chwarel Cae;
A thithau yr *Hen Fules*
Hudoles plant y plwy,
Mae'th enw i'w anwylo -
Ffarwel i'th gicio mwy.

Er cof am *Fox* a *Timbol*
A *Blondin* gyda blas,
Meredydd, *Bright* a *Stanley*
A *Foli* - car y Bass;
Dinorwig a *Pandor*
A'r *Wyddfa* ddaw i lawr;
Caradog, *Madog*, *Menai* -
Ta ta i'r fintai fawr.

Yn olaf rhaid ffarwelio
Â'r hen *Falwoden Lwyd*
Ni welwn mewn bodolaeth
Ei bath am gario bwyd
Os oes rhyw enw arall
Heb gael ei ddwyn ar go'
Wel rhewch y bai i ddisgyn
Ar fechgyn Cwm y glo.

Darfydda *Panorama*
Yr yrfa gyda hyn;
Ni welir mwy eu cysgod
Lle hynod yn y llyn;
Gan fynd â'u pennau i waered
A'u traed wrth draed yn cwrdd,
Tra'r oll fel dwbl fintai
Yn ffoi o chwith i ffwrd.

Ffarwel i'r gwyllt gerbydau
A'u moddion yma mwy,
A chroeso i'r *Gerbydes*
Ar ôl eu hanes hwy;
Fe fforddiwyd trên gyfforddus
I'r llu llafurus, llon;
Caiff *Moch* hen *Famog* Cymru
First seats o hyd yn hon.

Hwre i Drên y Gweithwyr
Ac i'r Boneddwr mad
A'r mynnodd er ein mwyniant;
Feilyngant glodydd gwlad;
Fel hyn mae'r byd a'i bethau
Yn rhwydd fyrhau ein hynt,
Gan fyned ar olwynion
I'r hen yn gynt, yn gynt.

Daeth oes y ceir gwyllt i ben yr 1895 gyda dyfodiad y trên chwarel Sylwch yn ôl yr ail bennill fod dau fath gwahanol o gar gwyllt. Gellid ei cicio neu eu troi, ac yn naturiol, fe't gelwid yn 'gar cicio' neu'n 'gar troi' 'Roedd yn bosibl cyrraedd cyflymder go beryglus gyda'r ceir gwyllt hyn, ac er bod brêc arnynt, byddai hwnnw'r aml yn aneffeithiol, yn enwedig os byddai dŵr wedi mynd iddo. Byddai damweiniau'n digwydd yr achlysurol, rhai ohonynt yn ddigor disylw, fel dau gar yn rhedeg i'w gilydd oherwydd diffyg ar y brêc ond bu rhai damweiniau anghueo o'u hachos hefyd.



**BECWS
DEINIOLEN**
(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS
Dosberthir drwy'r fro
HEB UNRHYW DÂL YCHWANEGOL

BECHGYN EGLWYS LLANDDINORWIG A'R SANTES FAIR A AETH I'R WEINIDOGAETH



Rev. E.O. Evans BA.



Rev. Ivor Williams BA.



Rev. W.R. Hughes BA.



Rev. Herbert Thomas BA.



The Lord Bishop



LLANDDINORWIG CHRIST CHURCH



Rev. W. Walter Jones Bard



Rev. H. Jones



Rev. H.A. Jones BA BEE.



Rev. Idwal Jones BA BEE.



Rev. R.H. Jones BA.

Rhes uchaf: Y diweddar Barch. Ganon Ifan Orwig Evans (cyn-ficer Penmynydd, Môn) a'r diweddar Barch Ifor Williams (Dinorwig) cyn-ficer Cwm Ystwyth; y Parch Ganon W.R. Hughes oedd cyn ymddeol yn Rheithor Amlwch. Yn y canol, gyda'r diweddar Esgob J.C. Jones a'r Canon Walter Jones y ficer y mae'r Parch Herbert Thomas (Dinorwig) oedd cyn ymddeol yn ficer Llannor, a mab y ficer sef y Parch Ganon Hywyn Jones, rheithor Caergybi.

Yn y rhes isaf — y diweddar Barch H. Arthur Jones, cyn-ficer Glanogwen, a'i frawd y Parch Ganon Idwal Jones sydd newydd ymddeol o fod yn ficer All Saints Leamington Spa, a'u cefnder y Parch R.H. Jones sydd wedi ymddeol ac yn awr yn byw yn Llandudno. Ers pan dynnwyd y llun, fe ordeiniwyd y Parch Idris Thomas (Dinorwig) sy'n reithor Clynnog a Threfor.

(Llun trwy garedigrwydd Miss Priscie Roberts, Glanrhydfadog, Deiniolen.)

PERIS

Mae'r enw Peris a darluniau o'r llyn a'r wlad oddi amgylch yn ymddangos yn aml yn *Eco'r Wyddfa* a daeth awydd arnaf i chwilio am hanes y sant a roddodd ei enw i'r llyn, i bentref Llanberis ei hun, Dôl Peris (y Ddôl) a Ffynnon Peris sydd yn ymyl yr Eglwys yn Llanberis.

Ond ysywaeth ychydig iawn o'r hanes sydd ar gael. Yn ôl Cyfrol IV o *Lives of the British Saints* dywedir mai Cardinal yn Eglwys Rhufain oedd Peris ar y cychwyn. Yr oedd yn fab i Helig ap Glanog ac yn byw yng nghyffiniau Bangor-is-y-coed. Yn ôl y traddodiad dywedir i'r môr or-lifo'r tir a symyd o Peris i Ynys Enlli a chael ei ystyried yn sant. Ond y mae cryn amheuaeth am ei wirionedd. Y mae'r enw yn tarddu o'r un enw a Paresu sef y tiroedd sydd yn gyfateb ag

esgobaeth 'Paris', prif ddinas Ffrainc.

Ychydig iawn o enw'r Sant a geir yng Nghymru. Y mae un ger Aberystwyth a'r gweddill yn ardal Llanberis.

Yr oedd ffynnon Peris yn cael ei hystyried yn gysygreddig. Deuai llawer yno i chwilio am iachâd yn y ddeunawfed ganrif a dechrau y 19g. Yn ôl yr hanes yr oedd dau bysgodyn cysegredig yn wastad yn y ffynnon ac yn ôl y traddodiad deuai cleifion yno — ac os deuai y pysgod o'u lloches pan gynhyrfed y dŵr yna buasai'r claf yn gwella ond os nad ymddangosent ni fyddai gwellhad i'r claf (gwnaed ystrywiau ambell waith i gael i'r pysgod ymddangos o'u cuddfan!) Tybed mai'r torgoch oedd y pysgod? Mae'n adnabyddus fod Llyn Peris a Phadarn a llynnoedd

gan G.J. Jones, Elidir, Bangor

eraill yng Nghymru sydd yn bod ers amser oes yr iâ yn gartre i'r torgoch (*char*) — ac mae'n ddiddorol deall mai enw Lladin am y torgoch yw *Salvelinus Perisu*

— yn ôl yr hyn a ddarllenais yn y *Daily Post* rai blynyddoedd yn ôl.

Erbyn heddiw gwelir yr enw Peris ar dai annedd etc. Efallai y bydd gan rhywun fwy o wybodaeth am yr enw ond deallaf mai enw'r Sant Padarn sydd ar eglwys yn Llanberis ei hun.

MODURDY
MENAI



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI

Ffôn : Portdinorwic 670882
Perchennog : J. Evans

SETIAU
TELEDU LLIW
AIL LAW
MEWN CYFLWR
RHAGOROL
SIOP TELEDU

T
CEPAS

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG
(Ffôn: Llanberis 205
gyda'r nos)

EVANS VEHICLE
BODY REPAIRS
& PANEL BEATERS
CLWT-Y-BONT

Ffôn: LLANBERIS 611

am drwsio
TOLCIAU, WELDIO, SPREIO, ATGYWEIRIO
wedi damwain, ac ati.

CEIR AIL-LAW AR WERTH

Mynnwch eich
PAENT a PHAPUR PAPURO
oddi wrth

E.WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

WAUNFAWR

Y CARNIFAL – Cynhelir y Carnifal blynyddol yn ystod ail wythnos mis Gorffennaf. Dyma drefn y gweithgareddau.

Nos Sul, Gorffennaf 6 – Cymanfa Ganu yng nghapel Bethel MC am 7.30 o'r gloch. Arweinydd ac unawdydd: Richie Thomas, Penmachno. *Mynediad trwy raglen: 30c*

Nos Fawrth, Gorffennaf 8 – Cystadlaethau Pêl-droed 5 bob ochr yng nghae'r ysgol am 6 o'r gloch. (Cysylltwch â Gareth Jones, Glyn Peris)

Nos Fercher, Gorffennaf 9 – Mabolgampau yng nghae'r ysgol am 6 o'r gloch. *Mynediad – Oedolion: 10c, Plant: 5c*

Nos Wener, Gorffennaf 11 – Coroni'r Frenhines Lynne yn Neuadd yr Eglwys am 6.30 o'r gloch. Bydd Dafydd Iwan ac Edward yno i'n diddori. *Mynediad – Oedolion: 40c, Plant: 20c*

Dydd Sadwrn, Gorffennaf 12 – Y Carnifal yn cychwyn o Fod Hyfryd am 1.30 o'r gloch i lawrat y Llythyrdy, aci gae'r ysgol. Bydd Cefin Roberts yn beirniadu'r cystadlaethau gwisg ffansi. Stondinau a'r Caffi. *Mynediad trwy raglen: 20c (Oedolion)*

Nos Sadwrn – Bwffe yng Ngwesty'r Afr, Beddgelert am £3. Bydd bws yn cychwyn am 7.45 o'r gloch. *Enwau ac arian i: Olwen Williams, Llidiart Wen neu Beryl Jones, Dôl-y-Coed.*

SEFYDLIAD Y MERCHED – Nos lau, Mehefin 5 cyfarfu Sefydliad y Merched yn Neuadd yr Eglwys. Dymunodd Mrs C.A. Jones, y llywydd, wellhad buan i Mrs Mary Davies ac i Mrs Morgan Jones, a chydymdeimlodd â Mrs Morfa Evans yn ei phrofedigaeth. Datganodd y llywydd ei phleser fod tair seren aur, pedair seren arian, pump seren goch ac un seren werdd wedi eu dyfarnu i aelodau a oedd wedi arddangos eu gwaith yn yr Arddangosfa Grefftau a gynhaliwyd ym Methesda yn ddiweddar. Bydd y darnau o grefftwaith gyda seren aur a seren arian yn cael eu harddangos yn yr Arddangosfa Grefftau Jiwibili Diemwnt a gynhelir yn Lolfa'r Brifysgol ym Mangor ar 1 a 2 o Orffennaf. Y gŵr gwadd oedd Mr David Jones, y Swyddog Nyrsio Rhanbarthol, a chafwyd sgwrs ddiddorol ganddo ar ei waith ac ar yr ysbyty newydd ym Mangor. Rhoddwyd blodau bwrdd y llywydd i Mrs Morgan Jones a Mrs Betty Griffith oedd enillydd y raffl. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos lau, Gorffennaf 3 yn Neuadd yr Eglwys pan fydd Mrs Cemlyn Williams yn rhoi arddangosfa o drefnu blodau.

PRIODAS – Dymuniadau gorau i Miss Rhian Jones, athrawes yr Hafod a Mr Gareth Hughes ar achlysur eu priodas, a chroeso iddynt i'n plith i'r Waunfawr. Gobeithio y byddant yn hapus iawn yn eu cartref newydd.

ADREF O'R YSBYTY – Croeso adref i Owain Llŷr Jones, Saron Wen; Sarah Williams, Parc; Mrs Cotton, Bryn Hyfryd a Mrs Morris Pritchard, Tref Eilian. Gobeithio eu bod i gyd yn parhau i wella.

PROFEDIGAETH – Cydymdeimlir â Mrs M. Griffiths, Darwayne, 18 Stad Tŷ Hen ar golli ei brawd.

DRAMA – Cyhoeddwyd drama 'Wythnos Ola'r Tymor' gan y diweddar William Vaughan Jones yn ystod y mis diwethaf. Yn y saith degau bu wrthi'n brysur yn cyfansoddi dramâu ar gyfer cangen Merched y Wawr y pentre, gydag actorion arbennig mewn golwg ganddo. Yn sicr trysor i'w gadw'n ofalus yw'r ddrama hon i bob un o'r cwmni i gofio am yr hwyl a gafwyd wrth ymarfer a pherfformio.

YR YSGOL FEITHRIN AR Y TELEDU – Daeth plant bach yr Ysgol Feithrin yn enwog drwy Gymru yn ddiweddar ar ôl eu hymddangosiad bedair gwaith ar y rhaglen deledu 'Ffalabalam'. Gwelsom y plant yn yfed l efrith a bwyta creision un diwrnod, a'r diwrnod canlynol gwelsom hwy yn canu emyn bach. Mae gobaith am gantorion o fri yn y pentre pan dyf y plantos yma. Yn ystod eu pedwerydd ymddangosiad roeddynt yn brysur iawn yn chwa ae gyda chlai. Da iawn chi blant.

MERCHED Y WAWR – Nos lau, Mai 22 yn Neuadd yr Eglwys cafwyd Arddangosfa Goginio gan Miss Eurwen Roberts, Pontllyfni. Daeth cangen Nant Gwynant atom i fwynhau'r noson a chafwyd lluniaeth ysgafn ar y diwedd. Yn absenoldeb Mrs M. Awstin Jones, llywyddwyd y noson gan Rhian Ellis, yr is-lywydd a chydymdeimlodd â Mrs Jones yn ei phrofedigaeth o golli ei phriod.

Diolchwyd i Miss Roberts gan Mrs Mary Vaughan Jones, ac enillydd lwcus y raffl, sef un o ddanteithion Miss Roberts, oedd Mrs Roberts, Wernlas Deg, Betws Garmon.

Cafwyd adroddiad o'r Pwyllgor Cenedlaethol, a fynychwyd yn Aberystwyth gan Carys Owen a Carys Jones, gan Carys Owen yr ysgrifenyddes.

**CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR**

HEINTIAU'R ARDD LYSIAU

Er nad yw'r tywydd braf a sych diweddar wedi bod mor garedig wrth dyfiant ein gerddi, mae wedi bod yn gyfnod hynod lewyrchus i'r pryfed. Yna daeth y glaw a'r tamprwydd i hybu'r ffwngau. Felly, os na fyddwn yn ofalus, gallwn ddisgwyl cnwd da o'r gelynnion heintus y mis hwn.

Dyma sut i drin yr heintiau mwyaf cyffredin:

Teulu'r Bresych a Rwdins

Mae sawl haint all effeithio ar y rhain.

Os yw'r dail yn gwywo pan mae'n heulog a lliw porffor afiach yn datblygu ar eu hymylon, mwy na thebyg cynrhon bach gwyn sy'n bwyta'r gwreiddiau. Defnyddiwch lwch *Bromophos* i ladd y pryfyn. Teflwch unrhyw blanhigyn heintus i ffwrdd. Yn union cyn trawsblannu, dylid trochi'r gwreiddiau mewn pâst o 4 y cant llwch *Calomel* a dŵr. Yn ogystal, mae pâst *Calomel* yn effeithiol yn erbyn gwraidd clwm sy'n achosi tyfiant araf a gwael.

Gan y gall y ddau haint yma aros yn y pridd dros y gaeaf, mae'n well peidio plannu'r planhigion hyn yn yr un pridd yn amlach nag unwaith bob tair blynedd.

I warchod rhag lindys defnyddiwch lwch *Derris* neu *Lindane*. Cystal fyddai malu wyau melyn iâr fach yr haf sydd i'w canfod o dan y dail. Gellir eu rhwbio rhwng y bysedd.

Yn olaf, da o beth fuasai rhoi cylch o galch o amgylch pob

planhigyn. Mae hwn yn angenrheidiol i'w dyfiant ac fe rwystra falwod rhag cnoi bôn y goes.

Moron

Defnyddiwch lwch *Bromophos* i gadw'r Pryfyn Moron draw. Dylid ei ddefnyddio wrth blannu'r moron ac wedyn wrth eu teneuo.

Ffa

Chwain Duon ar flaen y planhigion yw'r gŵyn gyffredin. Os canfyddir y chwain, dylid torri modfedd neu ddwy oddi ar y blaenau. I warchod y planhigion rhag pryfed, gellir defnyddio gwenwyn systemig. Pery'r gwenwyn am 2-3 wythnos. Felly ni ddylid ei ddefnyddio os yw'r planhigyn mewn blodau neu ar fin blodeuo. Gan fod yr holl blanhigyn yn wenwynllyd yn y cyfnod yma, gall ladd y gwenwyn sy'n bwydo ar y paill a'r neithdar. Mae'r gwenwyn yntau yn hollbwysig i beillio.

Tatws

Os deil y tywydd gwlyb a chynnes mae siawns da i'r tatws gael *Malltod* (*Blight*). Bydd y lliw brown a ymddengys ar ymylon y ddeilen yn gweithio'i ffordd tua'i chanol. Dylid chwistrellu cymysgedd o *Bordeaux* a dŵr ar y dail cyn iddo ddechrau.

Nionod o Hâd

Gellir eu gwarchod â llwch *Calomel* rhag Pryfyn Nionod a ffwng. 'Does fawr o ddim yn poeni nionod o setiau.

GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

Gwaith Coffaol o bob math
mewn llechi a gwenithfaen gan
grefftwyr lleol



**SÊR DROS
GYMRU**

**AR LWYFAN
PADARN ROC**

**NOS WENER,
GORFFENNAF 11**

**Am 7.30 p.m.
gyda**

CRYSBAS

ac

**ARTISTIAID
ERAILL**

Llannerch Y Llenor

gan SELWYN GRIFFITH



Croeso unwaith eto. 'Ydy merched yn fwy awyddus i gystadlu mewn 'Steddfodau na bechgyn d'udwch? Mewn tair cystadleuaeth ym Mhrifwyl yr Urdd ym Mro Colwyn bwm yn gwrandao ar 36 o gorau adrodd, a choeliwch neu beidio 'doedd na'r un parti o fechgyn ymhlith y tri dwsin - er mai Parc yr Arfau oedd un o'r darnau prawf.

Yn wir, o deithio 'steddfodau lleol Cymru ffaith ddiddorol yw sylweddoli mai merched yn unig sy'n cystadlu mewn amryw o'r cystadlaethau; ac eto am ryw reswm yn y gystadleuaeth canu dros hanner cant, a'r brif unawd, mae'r dynion yn y mwyafrif.

Y tro nesaf yr ewch chi i 'Steddfod leol, cyfrwch, o ran diddordeb, faint o fechgyn a faint o enethod fydd yn cystadlu yno.

Ac os am wledd o 'Steddfod leol, wel ewch i Lanuwchllyn ar ddydd Llun Sulgwyn. Dechrau am 10 y bore, a'r 'Steddfod yn parhau tan 3 o'r gloch y bore dilynol. Cystadlu brwd ac awyrgylch gynnes, groesawgar i'r holl weithgarwch.

Arferid cynnal 'Steddfod Lanuwchllyn mewn pabell eang ers talwm, ond erbyn hyn cynhelir cyfarfodydd y bore a'r prynhawn yn y Neuadd, - sef yr hen ysgol, a chyfarfodydd yr hwyr yn yr hen gapel enwog.

'Chlywais i 'rioed Orsedd o Feirdd mor ffraeth â Gorsedd Beirdd Lanuwchllyn, gyda'r Parchedig Huw Jones fel Archdderwydd yn gweinyddu'r seremoni. Mae Huw yn caru cael sgwrs bersonol â'r bardd yng nghanol y seremoni.

Cofiaf yn dda i mi ennill y gadair yno ym 1966, o dan y ffugenw Y Gors Bach a'r Hybarch Barchedig Archdderwydd yn gofyn i mi yn gyhoeddus yn ystod y seremoni beth oedd arwyddocâd y ffugenw. Minnau'n ateb yn gwbwl onest mai tafarn ger fy nghartref oedd Gors Bach, a'r Parchedig Huw Jones, yn cyhoeddi i'r gynulleidfa - "Tafarn yn ymyl cartre'r bardd ydy Gors Bach, ond 'rwy'n siŵr na fu iddo yntau mwy na finna' erioed roi ei droed dros ei rhiniog hi."

Ydy mae'r hiwmor ffraeth a'r tynnu coes parod yn parhau ym Mro Penllyn a phleser pur oedd

cael treulio bron i ddeuddydd yn un o Eisteddfodau lleol mwyaf llewyrchus Cymru, ac mewn ardal lle mae'r diwylliant Cymreig ar ei orau.

Dyma rai o'r englynion a dderbynias. Testun yr englyn oedd 'Arswyd' ac 'Embaras' oedd testun yr englyn digri.

Arswyd

Nos y rhwyg yn Llys Iran - adawodd
Bob dewin yn syfrdan,
Angau uwchben yn hongian
A gwaed yn ffroenau y gwan.

O roi'r had ar ôl 'redig, - yn yr â
Gwelir erwau tewfrig,
O roddi 'mro Dyfi'r dig
Wele wanwyn mileinig.

Yn oer iasol y'm treisi - a bwrw
Ysbwriel dy ynni,
Ai hoedl bwystfil genhedli
O roi'th wae yn fy nghroth i?

Heddiw ni pherthyn iddo - y wefr oer
Dreiddia'r fron o'i deimlo,
A daw gwyr mewn byd o'i go,
A hwn i gynefino.

EMBARAS

Englyn i ran arbennig o'r corff a gafwyd, yn hytrach nag i embaras ond ta waeth!

Un o werth da iawn wrtho - yn wastad
'Rym yn eistedd arno,
Hwn yn hy' a dry'n ei dro,
Yn offeryn bacfeirio.

Ia - offeryn bacfeirio - offeryn
chwyth reit siŵr.

O bleser cinio blasus - i afael
Hen glefyd anweddus,
Rhoi naid oedd yn rhaid i Rhys
Rywsut yn glir o'i drowsus.

Er prynu drink a wincio - a thalu
I'w thylwyth am ginio,
Un o'r Llan, rhyw hanner llo
A'i hudodd anser clwydo.

Gawsoch chi embaras debyg rywdro ys gwn i? Fydd na ddim Llannerch y Llenor tan fis Medi eto. Gobeithiaf gael cyfle i ymdrochi yn y Môr Marw cyn hynny, os bydd yr hinsawdd yn caniatáu i mi ymweld â gwlad Canaan.

Hwyl i chi ar eich gwyliau.

Selwyn

CWM- Y-GLO

CARNIFAL - Dyma restr o weithgareddau'r wythnos Garnifal eleni:

Nos Sul, Mehefin 29. Cymanfa Ganu - Capel Tabernacl. Dechrau am 8 o'r gloch.

Nos Lun, Mehefin 30. Noson i'r Merched yn y Ganolfan am 7 o'r gloch.

Nos Fawrth, Gorffennaf 1. Helfa Drysor. Ger y Modurdy am 6.30
Nos Fercher, Gorffennaf 2. Noson i'r Oedolion yn y Ganolfan am 7.00

Nos Iau, Gorffennaf 3. Dartiau yng ngwesty'r 'Snowdon' am 8.30.
Nos Wener, Gorffennaf 4. Disgo i'r plant yn y Ganolfan am 6.30.

Nos Wener, Gorffennaf 4. Disgo i'r plant yn y Ganolfan.

Dydd Sadwrn, Gorffennaf 5. Y carnifal. Yr orymdaith yn cychwyn gerllaw y Cae Chwarae am 2.30.

Agorir y carnifal gan Bryn Fôn.

NOSON WOBRWYO - Nos Wener, Mehefin 20 cynhaliwyd noson wobrwyo tim Cynghrair Gwyrfa'i yng ngwesty Llyn Padarn, Llanberis. Mr Noel Williams, Caernarfon (ysgrifennydd y Gynghrair) oedd yn gwobrwyo'r canlynol: Chwaraewr y tymor - Dilwyn Morris. Cydradd ail chwaraewyr - Andrew Flint, Steven Owen. Sgoriwr uchaf - Dilwyn Morris.

Derbyniodd chwech o'r bechgyn fedal i gofio'r anrhydedd o gael eu dewis i chwarae yn nhimau A a B Cynghrair Gwyrfa'i. Dilwyn Morris, Nigel Orritt, Neil Rowlands, Michael John Williams, Garry Evans a Gwyn Morris.

Hyderwn y bydd y Cae Chwarae yn barod i'w ddefnyddio ar gyfer y tymor nesaf, gan na fu'r bechgyn yn chwarae gartref ers dau dymor bellach.

DIOLCH - Dymuna Mr a Mrs D. Price, Tan-y-Graig ddiolch i'w ffrindiau a'u cymdogion oll a fu mor garedig ar enedigaeth Glyn - brawd i Gareth ar Fehefin 2.

TAN- Y- COED

DEWIS DAU FLAENOR - Yng nghapel Tan-y-Coed pnawn Sul, Mai 25 etholwyd dau flaenor Mrs Nellie Hughes, 3 Tai Maesgarnedd a Mr Gwilym Jones, Gorwel.

MARW - Yn gynnar fore Sadwrn, Mehefin 14 yn Ysbyty Môn ac Arfon bu farw Mrs Mary Margaret Lloyd Jones (Peggy) Hafod Owen yn 50 mlwydd oed.

Yn ei marwolaeth hi colodd eglwys Tan-y-Coed y trydydd aelod ers mis Mawrth.

Estynnwn fel ardal ein cydymdeimlad dyfnaf â phriod Mrs Lloyd Jones - Mr Robin Ll. Jones, a'i phlant Gareth a Carys ac â'i thair chwaer a'r teulu oll yn eu profedigaeth fawr, colli priod, mam a chwaer oedd mor annwyl, siriol a dewr.

Claddwyd Mrs Ll. Jones ym mynwent y plwyf wedi gwasanaeth cyhoeddus yn y capel, a phreifat i'r teulu yn y cartref. Gwasanaethwyd gan ei gweinidog, y Parch W.O. Roberts yn cael ei gynorthwyo gan y Parch Gwyndaf Evans, a'r Parch R. Thomas, cyfaill y teulu.

LLONGYFARCHION - I Victoria de-Boo, Bryn Cwil ar ei dewis yn un o foneddigesau Brenhines Carol - brenhines Majorettes Llanrug. Y mae tymor prysur o flaen Victoria a'r Majorettes yr haf yma.

I Carys Lloyd Jones, Hafod Owen ar ennill gwobr am fod yn un o'r gwerthwyr llyfrau a werthodd fwyaf o lyfrau i Ymgyrch Lyfrau Ysgol Brynrefail yn ddiweddar. Gwerthodd Carys 37 o lyfrau.

I Rubina McCann, 'Rallt a enillodd fedal aur mewn cystadleuaeth agored i sgiwyr dan 14 oed ym Mhencampwriaeth sgio Ysgolion Cymru ym Mhontypwl.

I Margaret E. Roberts, Tainewyddion, Carol Ann Jones a Linda Wyn Jones Pantclyd am eu llwyddiant ym mabolgampau Ysgol Brynrefail yn ddiweddar.

I GAERDYDD - Dydd Sadwrn, Mehefin 21 bydd Mr Selwyn Jones, Pant Clyd a'i ferch Carol Ann yn cael cyfweiliad yng Nghaerdydd i fynd ar raglen Hywel Gwynfryn 'Gair i Gall' - pob hwyl iddynt.

ANGEN YSWIRIANT?

Am Yswiriant Bywyd
Polisiau Gwaddoli (Endowment)
Cynlluniau Pensiwn
Cynilo
Yswiriant Tŷ
Yswiriant Car ac ati

Cysylltwch â

VIVIAN WILLIAMS
11 STRYD Y DŴR
LLANBERIS

Cynrychiolydd Y Royal Liver Friendly Society a Sun Alliance

SIOP

ALMO

YR HEN FARCHNAD CAERNARFON

Crysau T a Chwys o bob lliw a llun - gyda'ch enw, neges neu lun wedi ei brintio arnynt - o flaen eich llygaid!
Arbenigwn mewn crysau ar gyfer clybiau, cymdeithasau, tafarndai ac ati.
Galwch yn y siop neu ffoniwch WAUNFAWR 637 ar ôl 6.00 p.m.

BRYNREFAIL

PEDWAR UGAIN OED – Ar achlysur ei phen-blwydd yn bedwar ugain oed, daeth nifer o'r teulu a chyfeillion ynghyd i Dros yr Afon ar y dydd arbennig hwn ym mywyd Mrs Elizabeth Foulkes, Haulfryn. Yr oedd eisoes wedi dathlu yr achos gyda thaith i'r Iseldiroedd i weld y blodau byd-enwog yng nghwmni ei dwy ferch, Mrs Betty Owen Tros-yr-afon a Mrs Marion Hughes, Little Sutton.

Bu Mrs Foulkes yn gogyddes yn Ysgol y Babanod, Brynrefail, o'r amser y dechreuwyd gwneud cinio yno ym 1946, hyd ei hymddeoliad ym 1960. Mae yn aelod ffyddlon o eglwys Bresbyteriaid Cymru yn Mrynrefail ers dros hanner canrif, ac wedi dilyn yr Ysgol Sul drwy gydol ei hoes.

Cafwyd gwledd arbennig ar gyfer y dathlu, a ddarparwyd gan ei dwy ferch. Fe ddymuna Mrs Foulkes ddatgan ei diolch i'r teulu oll a chyfeillion am y dymuniadau da, cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd.

APÊL – Gan Fudiad Ymchwil i Blant Efyddedig (Action Research for the Crippled Child). Bwriedir cynnal stondin yng ngharnifal Cwm-y-glo a Llanberis, ac fe dderbynnir nwyddau ar gyfer rhain gan Moira Ellis, Gweledfa, Brynrefail, neu Margaret Wardle, Swyddfa'r Post, Cwm-y-glo.

GENEDIGAETH – Ar Fai 29 fe aned merch i Emyr a Glenys Jones, 9 Tremeilian. Yr oedd y ferch fach yn pwyso 6 phwys a 2 owns ac fe ddewiswyd yr enw Esyllt Mair, – chwaer i Llŷr, ac mae'r ferch a'r fam yn dod yn eu blaenau yn iawn.

WEDI SYMUD – Dymunwn yn dda i Mrs Mary Jones, sydd wedi symud o Dŷ Coch i gartref yr henoed yn Llanberis.

CYDYMDEIMLAD – Brawychwyd yr ardal ddiwedd mis Mai diwethaf ym marwolaeth sydyn Mr John Smith, 1 Tremeilian. Meddai ar gymeriad tawel a siriol, yn foneddigaidd a hoff ei ymarweddai. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

CLWB PEDWAR UGAIN – Enillwyr mis Mai. Mai 2: 1. Tom Thomas, 2. Helen Jones, 3. Elwyn Jones. Mai 9: 1. Audrey Roberts, 2. Sheila Williams, 3. Colin Wager. Mai 16: 1. Moira Ellis, 2. Len Parry, 3. Jackie Jones. Mai 23: 1. Ann Parry, 2. Eirwyn Williams, 3. Rhona Jones. Mai 30: 1. Jennie Roberts, 2. Megan Jones, 3. Glenys Jones.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Oherwydd y gwaith sydd ymlaen yn Nhŷ Glas ar hyn o bryd, fe gafwyd cyfarfod y mis yng Nglan Dŵr, trwy wahoddiad caredig Mrs Jennie Roberts. Traddodwyd hanes brawychus y chwyldro yn Uganda gan Mrs Dilys Krisalu, sydd ar hyn o bryd gartref yn Nôl Elidir, Llanberis. Fe wnaed y te gan Jackie Jones a Shirley Roberts. Rhoddwyd anrheg y mis gan Jackie Jones ac fe'i henillwyd gan Mrs Gwyneth Jones.

EGLWYS MC – Fore Sul, Mehefin 8, a'r Parch S.O. Hughes, Bethel yn gwasanaethu bedyddiwyd Rhian Wyn, merch Mr a Mrs Dennis Davies, Stryd Thomas, Llanberis, wyres i Mr a Mrs R.W. Evans, Ty'n Buarth. Yng ngwasanaeth y prynhawn, cyflwynwyd rhodd ar ran yr Ysgol Sul i Alwen a Caron Jones, Jacqueline a Glenda Walters, Nerys Ann Williams ac Einir Gwynn gan Miss Annie May Williams am eu gwaith gogyfer â'r Arholiad Sirol.

Bydd gwibdaith yr Ysgol Sul eleni yn mynd i Southport ar Orffennaf 12. Derbynnir enwau'r rhai sy'n bwriadu mynd gan Miss Dilys W. Evans, Ty'n Buarth a'r cludiad i oedolion fydd £2.

LLWYDDIANT CERDDOROL – Mewn Arholiadau a gynhaliwyd yn ddiweddar dan nawdd Coleg Cerdd y

Drindod, Llundain, bu'r canlynol o ddisgyblion Miss Lowri P. Roberts, A.T.C.L., Godre'r Coed yn llwyddiannus mewn canu'r piano: Arholiad Rhagarweiniol, Caron Haf Jones, 1 Tai Orwig; Alison Jones, Fron Gader, Cwm-y-glo ac Elen Wyn Roberts, Afon Rhos, Llanrug (y tair gyda theilyngdod). Gradd 1, Meinir Wyn Jones, 3 Trem Eilian (gyda theilyngdod) a Nerys Ann Williams, Llwyncoed. Gradd 2: Alwen Jane Jones, 1 Tai Orwig (gyda theilyngdod).

SEIAT DOSBARTH – Cynhaliwyd Seiat Ddosbarth Eglwys Presbyteriaid Dosbarth Deiniolen yn y Glasgoed, nos Fercher, Mai 21. Mater y seiat oedd 'Darllen Gair Duw' ac fe'i hgorwyd gan y Parch Trefor Lewis, Deiniolen. Cymerwyd y rhannau arweiniol gan Mr Elfed Roberts, Ffrwd Goch.

TAITH GERDDE – Nos Wener, Mehefin 13 cymerodd amryw o aelodau a phlant Eglwys MC Brynrefail ran mewn taith gerdded nodedig a drefnwyd dan nawdd Cymdeithas y Beiblau (Cangen Deiniolen a'r Cylch) tra bu eraill o'r aelodau yn Ffestri'r Capel mewn awr o Encil ddistaw. Cafwyd brwdfrydedd neilltuol ynglŷn â'r gweithgareddau a diolchir yn ddiffuant i'r holl noddwyr yn y pentref a thu allan am eu cefnogaeth. Trosglwyddwyd oddeutu £132 i Gronfa'r Gymdeithas.

NEIDIWR GORAU GWYNEDD – Pob lwc i Iestyn Jones ddydd Sadwrn, Gorffennaf 5. Bydd yn cynrychioli Gwynedd ym Mabolgampau Ysgolion Cymru yng Nghwmbrân. Enillodd ar y Naid Hir, Adran Iau, ym Mabolgampau Gwynedd ym Mangor gyda naid o 5.43 medr; dim ond ychydig llai na'r 'record'.

AR Y RADIO – Bu Owain Eirwyn Jones o Auckland, Seland Newydd yn sgwrsio ag Alun Williams ar y rhaglen 'Alun yn Galw' yn ddiweddar. Rhoddodd dipyn o hanes y wlad, a'i fywyd yno. Mab Mrs H.J. Jones, 7 Trem Eilian yw, ac yn Seland Newydd ers bron i ugain mlynedd.

GWYBODAETH GYHOEDDUS

Is-swyddfa newydd

Gwasanaethau Cymdeithasol

Symudwyd is-swyddfa Gwasanaethau Cymdeithasol Rhanbarth Arfon yng Nghaernarfon o'r Post Bach, Tŷ Newydd, Stryd y Castell i Rif 22 Stryd y Castell, gyferbyn â siop newydd Craft Centre Cymru.

Bydd yr is-swyddfa ar agor i'r cyhoedd ar ddydd Llun, dydd Mercher ac ar ddydd Gwener, yn y boreau'n unig, o 9.00 hyd 12.30. Bydd Gweithiwr Cymdeithasol at alwad yno a gwahoddir trigolion y cylch i wneud defnydd llawn o'r Swyddfa newydd ar yr amserau a nodir uchod.

CYSYLLTIAD BWS-TRÊN CAERNARFON-BANGOR

Mae gwasanaeth Crosville ar y Sadwrn a fydd yn cysylltu bws a thrên rhwng Caernarfon a Bangor yn cychwyn ar ddydd Sadwrn, Mehefin 7.

Bydd y bws, sy'n gadael Caernarfon am 6.20 am yn cysylltu â thrên 6.56 a.m. o Fangor i Lundain ar Sadwrnau yn ystod yr haf hyd Awst 30. Bydd yn mynd ar hyd y siwrnai M5 drwy'r Felinheli a Phenrhosgarnedd.

Mae'r trên 7.00 yr hwyr o Lundain i Fangor i fod i gyrraedd Bangor am 11.13 pm. Yna bydd bws yn gadael Gorsaf Bangor am Gaernarfon am 11.30 pm. Os bydd y trên yn hwyr, bydd y bws yn disgwyl hyd 11.45 pm.

Cefnogir y gwasanaeth arbrofol hwn gan Gyngor Sir Gwynedd. Os bydd yn llwyddiannus ac os gwneir defnydd helaeth ohono, cynigir gwasanaeth tebyg yn 1981.

Y LLYN SYCH

Yn swm yr heidro heddiw,
Dan Gastell gwiw ein bro,
Mae Peris wedi sychu
A gwyrdd ei garped gro.

Yn swm y cerbyd melyn,
A'r bicell yn y graig
Ni chlywir corn y chwarel;
A mudan bron y Ddraig.

Caed gwaed ar fryn y Castell,
A choch fu lliw y Llyn,
Ond gwynt a thon ddaeth heibio
A'r wlad anghofiodd hyn.

Caed gwaed yn rhedeg eto
Yn aberth yn ein b o,
Ar allor grym ac egni
Aeth gwaed yn lli i'r gro.

Nid byth y credwn ninnau
I ddyfroedd Marchlyn Mawr
Chwistrellu drwy bibelloedd
A chorddi'r Peris-lawr.

Bydd Peris eto'n las i'r lan
Ond, a fydd torgoch yn y fan?
Cawn gronfa las-ddwr eto i'r llan
A lleuad-gysgod yn y man.

Dilys Baylis.



PWY?

I'r ardd yr aeth yn selog
Un noson yn yr haf,
I dorri llwyth o riwbob –
Yr oeddynt yn rhai braf.
Eu rhoi a wnaeth i weddw dlawd –
Un hynod hael yw yr hen frawd.

Y wraig aeth adref yn ddioed
A'r pecyn yn ei llaw,
Gan lyfu ei gwefl wrth feddwl am
Y wledd gâi maes o law.

Ond Ow! wrth drin y riwbob
A'u golchi'n ôl y drefn –
Beth ganfu yn eu canol
Ond cylllell finioff lefn.

A dyma'r gamp, ddarlennwyr
Yw ffeindio Mr Hael
Oes rhywun all roi ateb
I'r Eco yn ddi-ffael?

CLIW:

Mae'r gamp yn well, yn ôl O.R.
Na'r cwestiwn mawr – "Who Killed J.R.?"

Rhiw-Bob

WYDDOCH CHI . . ?

Yn lle sgwrsio o hyd am y
tywydd, iechyd a phrisiau
bwyd a phethau diflas eraill
beth am i chwi geisio
synnu'ch cymdogion gyda
gwybodaeth.

Ewch i'r gwaith neu i'r siop
yfory a dwedwch:
Wyddoch chi fod twrch daear
yn gallu twnelu 225 troedfedd
mewn noson?

Neu

Wyddoch chi fod saith mil
miliwn o gardiau post wedi eu
hanfon yn ystod 1905?

Neu beth am hon:

Collwyd clwstwr o oriadau yn
Hamilton, Seland Newydd.

Ddwly flynedd yn
ddiweddarach daethpwyd o
hyd iddynt mewn paced o
lefrith powdwr ym Mheriw,
De America. 'Does 'na ddim
llawer o bobl yn gwybod
hynna!

Rhowch gynnig arni a
meddyliwch am yr argraff a
fyddwch yn ei chreu. Rhagor
o wybodaeth syfrdanol y tro
nesa.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

W.J.GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW

GWRES BP



Aelod o'r National
Association of
Plumbing and Mech-
anical Services
Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr.

CASTELL DOLBADARN gan Perisfab


Dyma'r adeilad hynaf ym mro Eco'r Wyddfa ac o bosib' yr hynaf yn y broydd cyfagos. Ni wŷr neb gan bwy na pha bryd yr adeiladwyd ef. Nid oes yn aros o'r hen gastell ond yr un tŵr a saif yno heddiw, ond ar un adeg yr oedd y castell yn llenwi arwynebedd yr holl fryn. Dywedir bod twnnel yn arwain o waelod y tŵr i hen westy a safai lle mae Gwesty Fictoria heddiw. Dywed un o'r enw W. Owen Pughe (gŵr na roddir fawr o goel ar ei ddyfaliadau erbyn heddiw) i'r castell gael ei adeiladu mor bell yn ôl â'r flwyddyn 233 C.C. gan un o'r enw Peris fab Idwal. Enw cyntaf y castell oedd Caer Peris ond ar ddyfodiad Padarn Sant i Gymru yn y chweched ganrif fe'i henwyd yn Gastell Padarn er anrhydedd i'r sant. Mae'r tŵr mor gadarn heddiw ag ydoedd ddwy fil o flynyddoedd yn ôl. Nid oes un garreg yn yr adeilad yn fwy na thair modfedd o drwch a'r mwyafrif o'r cerrig yn ddim ond hanner modfedd. Gododwyd y cerrig mewn gwely o fortar brwd ac erbyn heddiw mae'r mortar hwnnw mor galed â'r cerrig eu hunain. Safai'r castell rhwng dwy wylfa, un ym

Mhen y Pass a'r llall ar ben Dinas ger Glasgoed yn Llanddeiniolen. Yr oedd yn amhosibl i'r gelyn ddod i lawr y bwllch heb i'r gwylwyr ar ben y castell ei weld. Mae'n debyg mai hen garchar y castell yw'r tŵr a welir yno heddiw a dywedir i Owain Goch, brawd Llywelyn, fod yn garcharor yno am dros ugain mlynedd. Mae'n debyg mai un o'r ffeithiau mwyaf diddorol ynghylch Castell Dolbadarn yw'r ffaith mai ef oedd y castell Cymreig olaf a ildwyd i Edward I. Gorchmynnodd y Frenhines Mari fod yr hen gastell i gael ei ddinistrio'n llwyr rhag iddo fod yn noddfa i ladron ac ysbeilwyr.

Beth, tybed, sydd gan yr hen gastell i'w ddweud heddiw wrth edrych i lawr ar Lyn Peris a fu'n golchi ei draed am ganrifoedd ond sydd erbyn hyn yn gwbl sych a defaid yn pori'n hamddenol ar laswellt ei waelod?

I'r Sais, dim ond muriau sydd, - ond i ni,
Gwaed ein hil a edrydd
Ein hanes o'r tŵr llonydd,
A'n cof o'n cilfachau cudd.

(Tony Elliott)



YMDDIHEURO

Pechod anfaddeuol yw gwneud camgymeriadau ynglŷn ag oed pobl. Drwg iawn gennym, Clive a Gerald (tudalen flaen y rhifyn diwethaf) am lwyddo i wneud y ddau ohonoch yn ieuengach! Dylsem fod wedi dweud mai deunaw oed yw Clive ac mai dwy ar bymtheg yw Gerald. - Gol.

AR WERTH

Coets gadair mewn cyflwr da. £15. Towbars - 1 Chrysler Avenger - £10. 1 Chrysler Sunbeam - £10. 1 Chrysler Alpine - £10. Ffôn: Llanberis 357.

1969 Caravanette. Cyflwr arbennig o dda. £1,000. Towbar (fel newydd) - i Ford Cortina 1600 Saloon - £12. Bryn Tegid, Betws Garmon. (Ffôn: Waunfawr 294).

LLANRUG

CYMDEITHAS LENYDDOL CAPEL MAWR - Cafwyd pwyllgor o'r Gymdeithas uchod, pryd y trefnwyd rhaglen am y tymor 1980-81. Swyddogion y tymor yw: llywydd, Parch W. O. Roberts, is-lywydd, Mr Gwilym Owen, Glasgoed; ysgrifennydd, Mrs M.E. Jones, Ogwen; trysorydd, Mr John Williams, Gweledfa.

CANOLFAN HAFAN ELAN - Cynhaliwyd bore coffi ar Fai 25 a Mehefin 4. Rhoddwyd y coffi a'r cacenau ar Fai 25 gan Mrs K. Griffiths, Rhif 20, Mrs D. Williams, Rhif 19 a Mrs S.L. Jones, Rhif 22, ac ar Fehefin 4 gan Mrs E. Orritt, Rhif 10, B. Jones, Rhif 11 a Mr O. Morris, Rhif 12 y cwbl o Hafan Elan.

LLONGYFARCHIADAU - I Ann Thomas, Gwenallt, Tai Rhythallt ar ennill gradd o Goleg Cerdd a Drama, Caerdydd a Diploma mewn drama o Brifysgol Cymru.

CYDYMDEIMLIR - Â theulu 35, Bro Rhyddallt yn eu profedigaeth o golli priod a thad, Mr Thomas John Parry.

YR YSGOL FEITHRIN - Bu'r athrawon, mamau a'r plant yn dathlu'r ŵyl feithrin drwy gynnal taith gerdded o amgylch yr ardal. Hoffent ddiolch i bawb a'u cefnogodd. Cynhelir bore agored yn yr ysgol feithrin, Gorffennaf 1 o 9.30 tan 10.30. Fe fydd croeso i chi weld y plant wrth eu gwaith a chael paned yn eu cwmni. Bydd yr ysgol yn diweddu'r flwyddyn gyda gwibdaith i'r plant ar reilffordd Llyn Padarn, Llanberis.

Yn eisiau, erbyn Medi 1980. Athrawes i Ysgol Feithrin, Llanrug. Cysyllter â'r ysgrifennydd, Rhian Jones, 3 Minffordd, Llanrug. Caernarfon 5271.

MERCHED Y WAWR - Aeth aelodau'r gangen am dro i Gonwy, nos Fawrth, Mehefin 10, i ddiweddu'r tymor. Aed oddi yno am swper i Blas Maenan, ac wedi'r pryd blasus, cafwyd noson lawen gyda Trefor Selway yn arwain. Diolchwyd gan Miss Phyllis Ellis i Beth Ann Williams am drefnu, ac i'r gwesty am roddi noson mor ddifyr.

Bydd y tymor nesaf yn dechrau ar yr ail nos Fawrth ym mis Medi. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Y SEINDORF - Dechreuodd y seindorf ar waith yr haf, yng ngharnifal Pwllheli ar Fai 26. Ar Fehefin 14 roeddynt yn arwain gorymdaith Carnifal Eglwys Llanbeblig yng Nghaernarfon.

Bwriedir cynnal Tombola yn ystafell y Seindorf ar Orffennaf 14 am 7 o'r gloch.

BLODAU'R GRUG - Cyfarfu'r clwb brynhawn lau, Mehefin 12 yn y

Sefydliad Coffa. Y cadeirydd oedd y Parch Gwynfor Williams. Croesawodd y wraig wadd, Mrs M. Lloyd Williams, BEM a chawsom brynhawn difyr iawn yn ei chwmni. Croesawyd Mrs Nell Williams, 6 Hafan Elan i'r cyfarfod a Mrs Jennie Hughes ar ôl iddi fod yn wael yn yr ysbyty. Dymunwn adferiad buan i Mrs Owen Jones, 37, Bro Rhyddallt sydd wedi cael damwain i'w choes. Talwyd diolch i Mrs Williams gan Mrs Nell Williams, 6 Hafan Elan. Rhoddwyd y te gan Mrs Spratt, Miss C.A. Jones, Glan Llyn, Miss M.G. Roberts, Ganllwyd, Mrs Parry, Morannedd a Mrs Howells, Bryn Elert. Enillwyd y raffl a roddwyd gan y chwiorydd, gan Mrs Nesta Pritchard, Glanfa, Pontrythallt.

PLAID CYMRU - Cafwyd cyfarfod arbennig o bwyllgor y gangen ar Fehefin 5 i drafod penderfyniadau i'w cynnig yng nghynhadledd Arfon. 'Roedd y cyntaf yn ymdrin â phenderfyniad y llywodraeth i gwtogi ar staff a gweithgareddau Comisiwn Gwasanaeth Llafurlu (Manpower Service Commission) mewn adeg o argyfwng. Condemniwyd hyn yn llym. 'Roedd yr ail yn ymdrin â phroblem Sianel 4. Penderfynwyd paratoi ffurflen ddwyieithog eglurhaol ynghyd â deiseb yn galw ar yr Ysgrifennydd Cartref i newid ei feddwl ac i weithredu'r addewid yn araith y frenhines.

Ar y trydydd mynegwyd pryder nad yw digon yn cael ei wneud o dir a chynnyrch ein coedwigoedd. Enillwyd y Clwb Cant, 1. Mrs Pat Regan, 2. Mr Derfel Gruffydd, 3. Mr J.W. Griffith.

YN YR YSBYTY - Deallwn bod Owen Eilir, mab Mr a Mrs Arthur Jones, Hafan Elan a Mr Gwilym Owen, Glasgoed yn Ysbyty Môn ac Arfon ar hyn o bryd. Dymunwn adferiad buan iddynt. Gwellhad buan hefyd i Mrs Marian McGuinness, Ardwyn.

O'R YSBYTY - Dychwelodd Mrs Griffiths, Dolanog, Glanffynnon adref ar ôl cyfnod yn yr ysbyty ym Manceinion. Da deall ei bod yn gwella.

DYWEDDIO - Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Nia Rhydwen Humphreys, Lasynys, Llanrug, a David William Roberts, 40 Lôn y Bryn, Porthaethwy ar achlysur eu dyweddïad.

DIOLCH - Dymuna Nia a David ddiolch o galon am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu dyweddïad.

MEDAL AUR - Llwyddodd Euros Lyn, 10 Bryn Moelyn i ennill medal aur am nofio. Ein llongyfarchion iddo.


Lle Newydd Sbon Ar Gyfer Noson Allan!

GWESTY'R FOELAS (PREIFAT) LLANRUG

(Perch. Richard a Meirwen Thomas)
FFÔN: CAERNARFON 4652

PRYDAU BASGED BLASUS
BAR CLYD Â DEWIS DA O DDIODYDD

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .



BWSIAU ARFON LLANRUG (ERIC MORRIS)

Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

DYDDIADUR

Mehefin 30 - Gorffennaf 4 - Wythnos
Garnifal PENISARWAUN
Mehefin 29 - Gorffennaf 5 - Wythnos
Garnifal CWM-Y-GLO

GORFFENNAP

1, Mawrth: LLANRUG - Bore Agored
yr Ysgol Feithrin o 9.30 tan 10.30
CWM-Y-GLO - Helfa Drysor
PENISARWAUN - Noson Goffi yng
nghwmni'r consuriwr Mr Huw
Edwards yn Neuadd yr Eglwys am
6.30

2, Mercher: CWM-Y-GLO - Noson i'r
oedolion yn y Ganolfan am 7.00
PENISARWAUN - Noson o
Chwaraeon i blant ysgolion cynradd
3, Iau: WAUNFAWR - Sefydliad y
Merched - Arddangos Trefnu Blodau
gan Mrs Cemlyn Williams
PENISARWAUN - Disgo yn Neuadd
yr Eglwys

CWM-Y-GLO - Dartiau yng
Ngwesty'r Snowdon am 8.30
DEINIOLLEN - Rowndiau cyntaf
gemau 5 bob ochr am 6.00
Cymdeithas y Chwiorydd capel
Disgwylfa

4, Gwener: LLANBERIS - Te bach yr
henoed

DEINIOLLEN - Merched y Wawr -
gwibdaith i Lanrwt

CWM-Y-GLO - Disgo'r plant yn y
Ganolfan am 6.30

PENISARWAUN - Y Carnifal a
Mabolgampau

5, Sadwrn: CWM-Y-GLO - Y Carnifal
LLANRUG - Taith Gerdded Noddedig
er budd y Clwb Pêl-droed

BETHEL - Gwibdaith Ysgol Sul i
Southport

NANT PERIS - Gwibdaith Ysgol Sul
i'r Rhyl

LLANBERIS - Gwibdaith Ysgol Sul i'r
Rhyl

6-12: Wythnos Garnifal DEINIOLLEN
Wythnos Garnifal WAUNFAWR

6, Sul: DEINIOLLEN - Cyngerdd

Cysegredig yng Nghapel Ebenezer
am 8.00

WAUNFAWR - Cymanfa Ganu yng
Nghapel Bethel am 7.30

7, Llun: LLANBERIS - Gyrfa Chwist
yn y Ganolfan am 7.30

DEINIOLLEN - Gemau Terfynol 5 Bob
Ochr am 6.00

8, Mawrth: BETHEL - Clwb Bro Rhos
yn yr Ysgol

DEINIOLLEN - Disgo am 6.30
WAUNFAWR - Cystadlaethau

Pêl-droed 5 Bob Ochr am 6.00

9, Mercher: DEINIOLLEN - Cyngerdd a
Choroni Brenhines y Carnifal yng
Nghapel Cefn y Waun am 7.00

WAUNFAWR - Mabolgampau am
6.00

10, Iau: LLANRUG - Gwibdaith Clwb
Blodau'r Grug

DEINIOLLEN - Mabolgampau am 6.30

11, Gwener: YR ARDAL - Ysgolion yn
cau am Wyliau'r Haf

DEINIOLLEN - Noson o Hud yn
neuadd yr Ysgol am 6.00

WAUNFAWR - Coroni Brenhines
Lynne yn Neuadd yr Eglwys am 6.30

12 - 19: Wythnos Garnifal
LLANBERIS

12, Sadwrn: BETHEL - Noson o Gyw
lâr a Disgo ym Mhlas Tan Dinas. Y
noson dan nawdd Pwyllgor y Carnifal

BRYNREFAIL - Gwibdaith Ysgol Sul i
Southport

DEINIOLLEN - Y Carnifal
WAUNFAWR - Y Carnifal

Bwffe yng Ngwesty'r Afr, Beddgelert
LLANBERIS - Padarn Roc

13, Sul: LLANBERIS - Noson o Gân
yng Nghapel Coch am 8.00 yng
nghwmni Côr Godre'r Aran, Alawon

Menai a Pharti Cerdd Ysgol
Dolbadarn

14, Llun: DEINIOLLEN - Sefydliad y
Merched

LLANRUG - Tombola dan nawdd y
Seindorf yn Ystafell y Seindorf am
7.00

LLANBERIS - Gyrfa Chwist y Carnifal
yn y Ganolfan am 7.30

Pŵl yng Ngwesty Dolbadarn am 8.00

15, Mawrth: PENISARWAUN - Clwb
yr Heulwen

LLANBERIS - Mabolgampau yn Nôl y
Goeden am 5.45

16, Mercher: LLANBERIS - Disgo i
blant ysgolion cynradd yn y Ganolfan
am 7.00

Gornest Ddartiau yn y Padarn Lake
am 8.00

17, Iau: LLANBERIS - Gemau

Giamocs yn Nôl y Goeden am 6.45

18, Gwener - LLANBERIS - Te bach
yr henoed

Bingo'r Carnifal yn y Ganolfan am
7.30

19, Gorffennaf: DEINIOLLEN - Parti
Clwb Pêl-droed Ieuenctid ym Mhlas
Gwyn, Cricieth

LLANBERIS - Y Carnifal am 12.30

Râs yr Wyddfa am 3.30

TÎM PÊL-DROED DEINIOLLEN



Rhes ôl: Noel Owen (Hyfforddwr), Kevin Jones, Llion Evans, Ceris Jones, Adrian Williams, Trebor Thomas, Karl Williams, Bryn Jones. **Canol:** Elfed Williams (Rheolwr), Arthur Owen (Is-gadeirydd), Sam Lewis (Lonsdale), Eurwyn Jones (Ysgrifennydd), Gwilym Williams (Trysorydd), Robin Evans (Trefnwr Ariannol). **Rhes flaen:** Barry Price, Barry Williams, Malcolm Allen, Sion Roberts.

Yn y tymor '79-'80 bu tîm pêl-droed Deiniolen yn cadw'n brysur iawn - wedi ennill Cwpan Bernard Wardle, aethant ymlaen i fod yn bencampwyr Adran Gyntaf, Cyng rhair Gwyrfa. Dyma'r tro cyntaf i'r tîm fod yn fuddugol yn y ddwy gystadleuaeth ar unwaith. Bydd y bechgyn yn dathlu'r llwyddiant mewn parti yn ystod yr haf.

Yn y llun gwelir ddillad newydd y tîm sydd wedi eu cyflwyno i Ddeiniolen gan Mr Sam Lewis, Lonsdale Sports, Bangor.

Yn absennol o'r llun: Eurwyn Owen, John Williams, Gareth Owen, Dilwyn Williams, Arwel Williams, Barry Jones.

"W"EL MEDDAI "W"IL "W"RTH Y "W"AL
Mi fydd LLYTHYREN NE "W" YDD A
MODEL NE "W" YDD

MORRIS

ITAL

1300 neu 1700
Car neu Ystad
Syml neu Swel

Ond peidiwch
cymryd Wil ar ei
air - dewch i
weld drosoch
eich hun.
"W"AW!



T.R. & S. EVANS
Ffôn: Y Felinheli
670451

CHWARAEON

CYNGHRAIR IEUENCTID : CYLCH ARFON

DHERWYDD cyfyngiadau ariannol bu gemau pêl-droed rhwng gwahanol ysgolion uwchradd yn brinnach eleni, a rhaid diolch i'r caredigion hynny sy'n gyfrifol am drefnu a rhedeg Cyngghair Gwyrfaï fod bechgyn dan un ar bymtheg oed wedi cael y cyfle i chwarae pêl-droed yn weddol gyson. Mae pedwar o dimau ar hyn o bryd yn ardal yr Eco, sef Cwm-y-glo, Deiniolen, Llanberis a'r Waunfawr; a bu timau ym Methel a Llanrug ar un cyfnod hefyd. Deiniolen yn sicr fu'r tîm mwyaf llwyddiannus yn ddiweddar o'r ardal hon, ond daeth llwyddiant i ran Llanberis a Llanrug yn y blynyddoedd a fu hefyd, gan feithrin bechgyn ifanc addawol sydd bellach yn chwarae i dimau hyn yng Nghyngghair Caernarfon a'r Cylch.

Bu ymdeimlad ers tro bellach ymysg swyddogion Cyngghair Gwyrfaï a Chyngghair Caernarfon a'r Cylch fod gwagle'n bodoli rhwng oeddrannau'r ddwy Gyngghair, ac y dylid ceisio hybu cystadleuaeth, un ai ar ffurf cyngghair neu gemau cwpan, ar gyfer yr oedran o 16 i 19 oed. Mae lle i gredu fod llawer o fechgyn yn y grŵp oedran hwn yn cefnu ar chwarae pêl-droed, ac un ai'n teithio i wyllo gemau i Wrecsam, Lerpwl a Manceinion neu'n penderfynu chwarae rygbi. Y mae'r golled hon yn sicr o gael ei hadlewyrchu yn y blynyddoedd sydd i ddod pan fydd timau yn y Gyngghair hyn yn cael trafferth i arwyddo chwaraewyr profiadol. Y canlyniad o bosibl, fydd gostyngiad yn safon chwarae pêl-droed.

Mae trafodaethau ar hyn o bryd ynglŷn â'r posibilrwydd o sefydlu Cyngghair Ieuencid ar gyfer Tymor 1980-81. Byddai cyngghair o'r fath yn gamfa i helpu chwaraewyr ifanc i groesi o Gyngghair bechgyn i'r Gyngghair hyn, ac ar yr un pryd, yn cadw ac

yn hybu safonau chwarae pêl-droed yn y cylch. Gobeithir sefydlu Cyngghair Ieuencid gyda lleiafrif o chwech o dimau, a fyddai'n golygu deg o gemau mewn tymor. Pe bai cystadleuaeth cwpan yn cael ei threfnu gyda dau grŵp o dri thîm yn chwarae ei gilydd gartref ac i ffwrdd, gyda'r enillwyr yn cyfarfod mewn gêm derfynol, yna gellid ymestyn y tymor. Ac o gofio am gystadleuaeth Cwpan Ieuencid Cymru a Chwpan Ieuencid Gogledd Cymru, yna byddai tymor y bechgyn ieuanc yn eithaf llawn. Y bwriad, os sefydlir y Gyngghair, yw cychwyn y tymor ar y Sadwrn olaf ym mis Medi.

Felly, beth amdani dimau Llanberis a Llanrug; neu Ddeiniolen hyd yn oed? Os oes diddordeb gennych, cysylltwch â swyddogion Cyngghair Gwyrfaï neu Gyngghair Caernarfon a'r Cylch.

BLE MAEN NHW HEDDIW?

Diolch i Dilys Bayliss, Meirionfa, Llanberis am roi benthg y llun hwn inni. Tîm criced Ysgol Brynrefail tua 1930 - Mr James a Mr Gwyn Jones yw'r athrawon.



Dymuna trefnwyr Ras yr Wyddfa roi'r cyfle cyntaf i ddarlennwyr yr Eco i brynu ein Crys T arbennig sydd yn cynnwys y patrwm isod mewn lliwiau Brown a Gwyrdd.



Cysylltwch â Bryn Parry, Mafeking, Llanberis. Ffôn: Llanberis 455.

OEDOLION - 34", 36", 38" a 42" (dim ond y mesurau yma sydd ar gael yn y crys arbennig hwn). Mewn lliw Gwennith gydag ymyl Brown. Mae'r crys yma o Gotwm a Terelyne wedi ei ddewis i gyfatebu â lliwiau'r patrwm, a gellir ei olchi mewn peiriant golchi heb wneud dim niwed.

PRIS: £3.35

PLANT - 26", 28", 30" a 32". Mewn Cotwm Melyn neu Wyn.

PRIS: £2.50

CARNIFAL LLANBERIS

GORFFENNAF 12 - 19

Nos Sadwrn 12 - PADARN ROC - Maes Parcio Gwesty'r Victoria - 3 tan 11

Nos Sul 13 - NOSON O GÂN - Capel Coch - 8 o'r gloch (Côr Godre'r Aran, Alawon Menai)

Nos Lun 14 - GYRFA CHWIST - Y Ganolfan - 7.30

Nos Lun 14 - PŴL - Gwesty'r Dolbadarn - 8 o'r gloch

Nos Fawrth 15 - MABOLGAMPAU - Ddôl y Goeden - 5.45

Nos Fercher 16 - DISGO - i blant Ysgolion Cynradd - Y Ganolfan - 7 o'r gloch

Nos Fercher 16 - DARTIAU - Gwesty'r Padarn Lake - 8 o'r gloch

Nos Iau 17 - GEMAU GIAMOCS - Ddôl y Goeden - 6.45

Nos Wener 18 - BINGO - Y Ganolfan - 7.30

SADWRN 19ain DDÔL Y GOEDEN

12.30 - YR ORYMDAITH yn cychwyn o'r SWYDDFA BOST

SEINDORF ARIAN LLANBERIS a
DEINIOLEN yn arwain

ATYNIAD ARBENNIG ARDDANGOSFA GŴN HEDDLU GOGLEDD CYMRU

RAS YR WYDDFA



GORFFENNAF 19

am 3.30

Agorir y Carnifal gan
SYR WYNFF AP CONCORD
Y BOSS
a
PHLWMSAN Y TWMFFAT TWP
a
Mr a Mrs R.N. RAZELL (B.C.C.T.)